# Deddf Hapchwarae 2005
# Datganiad o Bolisi Trwyddedu 2022

**Ionawr 2022**

**Gellir cael gwybodaeth bellach gan:**
**Yr Adran Trwyddedu**
**Cyngor Sir Fynwy**
**Canolfan Addysg Gymunedol Y Fenni**
**Hen Heol Henffordd**
**Y Fenni**
**NP7 6EL**
**Ffôn: 01873 735420**
**E-bost: licensing@monmouthshire.gov.uk**
**Gwefan: www.monmouthshire.gov.uk/licensing**

## Cynnwys


**1. Datganiad o Bolisi Trwyddedu** **3**
1.1 Cyflwyniad 3
1.2 Proffil o Sir Fynwy 4
1.3 Amcanion 4
1.4 Swyddogaethau'r Awdurdod Trwyddedu 5
1.5 Ymgynghori 6
1.6 Awdurdodau sydd â Chyfrifoldeb 6
1.7 Partïon â Diddordeb 7
1.8 Cyfnewid Gwybodaeth 7
1.9 Gorfodi 8
1.10 Hawliau Sylfaenol 9
1.11 Integreiddio Strategaethau ac Osgoi Dyblygu 9
1.12 Strategaeth Datblygu Cymunedol Cynaliadwy 9
**2. Trwyddedau Safleoedd** **10**
2.1 Egwyddorion Cyffredinol 10
2.2 Amgylchedd Trwyddedu Priodol 12
2.3 Safleoedd "yn barod ar gyfer hapchwarae" 13
2.4 Ystyriaethau Eraill 13
2.5 Dyblygu â Chyfundrefnau Rheoleiddiol eraill: 14
2.6 Amcanion Trwyddedu: 15
2.7 Bet-Watch: 16
2.8 Amodau: 17
2.9 Goruchwylwyr Drysau: 19
2.10 Canolfannau Hapchwarae i Oedolion 19
2.11 (Wedi eu trwyddedu) Canolfannau Adloniant Teulu 19
2.12 Casinos 20
2.13 Safleoedd Bingo 20
2.14 Safleoedd Betio 21
2.15 Traciau 22
2.16 Peiriannau Hapchwarae: 22
2.17 Peiriannau Betio: 23
2.18 Ceisiadau a chynlluniau 23
2.19 Ffeiriau Teithiol 23
2.20 Datganiadau Dros Dro 24
**3. Hawlenni/Hysbysiadau Defnydd Dros Dro ac Achlysurol** **25**
3.1 Hawlenni Peiriannau Hapchwarae Canolfannau Adloniant Teulu Didrwydded 25
3.2 (Alcohol) Hawlenni Peiriannau Hapchwarae Safleoedd Trwyddedig 26
3.3 Hawlenni Hapchwarae am Wobrau 27
3.4 Hawlenni Hapchwarae mewn Clybiau a Hawlenni ar gyfer Peiriannau Hapchwarae mewn Clybiau 28
3.5 Hysbysiadau am Ddefnydd Dros Dro 29
3.6 Hysbysiadau am Ddefnydd Achlysurol 29
**4. Loterïau Cymdeithasau Bychain** **30**
**5. Gwneud Penderfyniadau** **32**
5.1 Gweinyddu, Gweithredu a Dirprwyo Swyddogaethau 32
5.2 Gweithdrefn Apelio 32
5.3 Rhoi Rhesymau dros Benderfyniadau 32
5.4 Gweithredu Penderfyniad y Llysoedd Ynadon 33

5.5 Cwynion yn erbyn Safleoedd Trwyddedig 33
5.6 Adolygiadau 33
**6. Amodau Trwyddedu a Chod Ymarfer 2015 (ATChY) 34**
**7. Gwybodaeth Bellach 44**
**Atodiad A Mynediad i Safle 45**
**Atodiad B Amserlen Dirprwyo Swyddogaethau a Phenderfyniadau Trwyddedu 47**
**Atodiad C Diffiniadau 50**
**Atodiad Ch Crynodeb o Ddarpariaethau ar gyfer Peiriannau gan Safleoedd 51**

# 1. Datganiad o Bolisi Trwyddedu

## 1.1 Cyflwyniad

Mae Deddf Hapchwarae 2005 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi “Datganiad o Bolisi Trwyddedu” sy'n nodi'r egwyddorion y mae'r Cyngor yn bwriadu eu defnyddio wrth arfer ei swyddogaethau trwyddedu wrth ddelio â cheisiadau am Drwyddedau Safle, fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf.

Daw'r Datganiad Polisi hwn i rym ar 31ain Ionawr 2022. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn diweddaru ac yn cyhoeddi Polisi Trwyddedu newydd pryd bynnag y bo angen ond beth bynnag o fewn 3 blynedd i ddyddiad y Polisi hwn, a bydd yn ymgynghori'n llawn â phartneriaid, cymdeithasau masnach a grwpiau preswylwyr fel yn briodol yr adeg honno, bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir yn cael eu hystyried bryd hynny.

Fodd bynnag, lle mae angen diweddariadau oherwydd newidiadau mewn deddfwriaeth genedlaethol, canllawiau statudol neu fanylion cyswllt, mae'r cyngor yn cadw'r hawl i ddiwygio'r polisi hwn heb ymgynghori lle mae angen sicrhau bod y polisi'n adlewyrchu deddfwriaeth genedlaethol neu ganllawiau statudol.

Wrth gynhyrchu'r Datganiad Polisi terfynol, mae'r Cyngor yn datgan ei fod wedi rhoi sylw i amcanion trwyddedu Deddf Hapchwarae 2005, y Canllawiau i Awdurdodau Trwyddedu a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae, unrhyw godau ymarfer ac unrhyw ymatebion gan y rhai yr ymgynghorwyd â hwy ar y Datganiad Polisi.

Mae gan y Cyngor rwymedigaeth gyfreithiol i gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, mae ganddo bolisi ar waith i hyrwyddo cydraddoldeb i bawb. Mae gan yr Ardal Gwasanaeth Cynllunio a Diogelu'r Cymdogaethau ei fframwaith cydraddoldebau ei hun sydd ar gael i'w archwilio ar ein gwefan. Bydd trwyddedu pobl ac adeiladau o dan Ddeddf Hapchwarae 2005 yn mynd ati i hyrwyddo cydraddoldeb gwasanaeth a gorfodaeth i bob aelod o'r gymuned.

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn ymgorffori'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i awdurdod lleol weithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws â hawl o'r fath. Bydd y cyngor yn rhoi sylw i'r Ddeddf Hawliau Dynol wrth ystyried unrhyw faterion trwyddedu, ac yn enwedig o ran y ffordd yr ystyrir ceisiadau ac y cynhelir gweithgareddau gorfodi.

Mae'r cyngor yn cydnabod y gallai fod angen iddo wyro oddi wrth y Polisi hwn ac o'r canllawiau a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf mewn amgylchiadau unigol ac eithriadol, a lle mae'r achos yn haeddu penderfyniad o'r fath er budd hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Gwneir unrhyw benderfyniad o'r fath mewn ymgynghoriad â'r cynghorwyr cyfreithiol priodol ar gyfer yr Awdurdod

Trwyddedu, a bydd y rhesymau dros unrhyw ymadawiad o'r fath yn cael eu cofnodi'n llawn.

## 1.2 Proffil Sir Fynwy

Mae Sir Fynwy yn bennaf yn sir wledig o ran cymeriad. Mae gan y Sir bum prif dref sef Trefynwy, Y Fenni, Cil-y-coed, Cas-gwent a Brynbuga, sydd wedi'u hamgylchynu gan nifer o bentrefi, pob un â'i gymeriad unigol ei hun.

Mae gan yr ardal boblogaeth o oddeutu 94,150. Nid yw Sir Fynwy yn boblog iawn, mae oddeutu 1 person yr hectar, er bod crynodiadau o dai mewn rhai ardaloedd.

Ffigur 1



Cyngor Sir Fynwy

Ffigur 2



Sir Fynwy yng Nghymru y DU

## 1.3 Amcanion

Wrth arfer y rhan fwyaf o'i swyddogaethau o dan Ddeddf Hapchwarae 2005 mae'n rhaid i'r Cyngor, fel yr Awdurdod Trwyddedu, roi sylw i'r amcanion trwyddedu canlynol::

- **Atal hapchwarae rhag arwain at drosedd neu anhrefn, bod yn gysylltiedig â throsedd neu anhrefn, neu gael ei ddefnyddio i gynnal troseddu;**
- **Sicrhau bod hapchwarae'n cael ei weithredu mewn ffordd deg ac agored;**
- **Amddiffyn plant a phersonau diamddiffyn eraill rhag iddynt gael eu niweidio neu i eraill gam-fanteisio arnynt yn sgil hapchwarae**

Dylid nodi bod y Comisiwn Hapchwarae wedi nodi: "Mae'r gofyn mewn perthynas â phlant yn benodol i'w hamddiffyn rhag iddynt gael eu niweidio neu i eraill gam-fanteisio arnynt yn sgil hapchwarae."

Mae'r Cyngor yn ymwybodol, yn unol ag Adran 153, wrth wneud penderfyniadau am drwyddedau safle a hysbysiadau defnydd dros dro y dylai geisio caniatáu defnyddio adeilad ar gyfer hapchwarae i'r graddau y mae'n credu ei fod:

- **Yn unol ag unrhyw god ymarfer perthnasol a gyhoeddir gan y Comisiwn Hapchwarae;**
- **Yn unol ag unrhyw arweiniad perthnasol a gyhoeddir gan y Comisiwn Hapchwarae;**
- **Yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu a'i fod**
- **Yn unol â Datganiad yr Awdurdod o Bolisi Trwyddedu.**

### 1.4 Swyddogaethau'r Awdurdod Trwyddedu

Mae'n ofynnol i'r Cyngor dan y Ddeddf:

- Fod yn gyfrifol am drwyddedu adeilad lle mae gweithgareddau hapchwarae i'w cynnal drwy gyflwyno Trwyddedau Safle;
- Gyflwyno Datganiadau Dros Dro;
- Reoleiddio clybiau aelodau a sefydliadau lles glowyr sy'n dymuno ymgymryd â rhai gweithgareddau hapchwarae drwy gyflwyno Hawlenni Hapchwarae Clwb a/neu Hawlenni Peiriannau Clwb;
- Gyflwyno Hawlenni Peiriannau Clwb i Glybiau Masnachol;
- Gyflwyno hawlenni ar gyfer y defnydd o rai peiriannau hapchwarae â chyfran betio is mewn canolfannau adloniant teulu sydd heb eu trwyddedu;
- Dderbyn hysbysiad gan safle alcohol trwyddedig (dan Ddeddf Trwyddedu 2003) am ddefnyddio dau beiriant hapchwarae neu lai;
- Gyflwyno Hawlenni Peiriannau Hapchwarae ar gyfer adeiladau sydd wedi'u trwyddedu i werthu/gyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle, dan y Ddeddf Drwyddedu 2003, lle mae mwy na dau beiriant;
- Gofrestru loterïau cymdeithasau bychain o dan y trothwyon rhagnodedig;
- Gyflwyno Hawlenni Hapchwarae am Wobrau;
- Dderbyn a chymeradwyo Hysbysiadau Defnydd Dros Dro;
- Dderbyn Hysbysiadau Defnydd Achlysurol;
- Ddarparu gwybodaeth i'r Comisiwn Hapchwarae parthed y trwyddedau a gyflwynwyd (gweler yr adran isod ar gyfnewid gwybodaeth);
- Gynnal cofrestri o'r hawlenni a'r trwyddedau sy'n cael eu cyflwyno dan y swyddogaethau hyn.

Dylid nodi nad yw awdurdodau trwyddedu lleol yn ymwneud â thrwyddedu hapchwarae o bell, sy'n cael ei reoleiddio gan y Comisiwn Hapchwarae trwy Drwyddedau Gweithredwr.

Mae'r Cyngor yn cydnabod mai dim ond un ffordd o hyrwyddo cyflawni'r tri amcan yw'r swyddogaeth drwyddedu ac felly ni ddylid ei ystyried yn fodd i ddatrys pob problem yn y gymuned. Felly bydd y Cyngor yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau cyfagos, Heddlu Gwent, y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, Iechyd y Cyhoedd, busnesau lleol, pobl leol a'r rhai sy'n ymwneud ag amddiffyn plant i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu fel yr amlinellwyd. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn cydnabod ei ddyletswydd o dan Adran 17 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998, o ran atal trosedd ac anhrefn.

### 1.5 Ymgynghori

Mae'r Cyngor wedi ymgynghori'n eang ar y Datganiad hwn cyn ei gwblhau a'i gyhoeddi. Mae rhestr o'r unigolion hynny yr ymgynghorwyd â nhw i'w gweld isod, yn unol â'r Ddeddf a Chanllawiau'r Comisiwn Hapchwarae. Mae mwy o fanylion, ynghyd â rhestr o sylwadau a wnaed ac ystyriaeth y Cyngor o'r sylwadau hynny ar gael ar gais.

- Prif Swyddog yr Heddlu;
- Yr Awdurdod Tân;
- Cynrychiolwyr deiliaid amrywiol drwyddedau ar gyfer adeiladau o fewn y Sir a effeithir gan y Polisi hwn;
- Cyrff sy’n cynrychioli busnesau a phreswylwyr yn y Sir;
- Adrannau (gan gynnwys Awdurdodau o fewn y Sir sydd â buddiant mewn trwyddedu hapchwarae;
- Bwrdd Lleol Diogelu Plant;
- Cynghorwyr Sir;
- Cynghorau Cymuned a Thref;
- Sefydliadau eraill yr ymddengys eu bod wedi cael eu heffeithio gan faterion trwyddedu gaiff eu cwmpasu gan y Datganiad hwn;
- Refeniw a Thollau Ei Mawrhydi;
- Bwrdd Iechyd Lleol.

Digwyddodd ymgynghori rhwng 1af Mehefin 2021 a 31ain Awst 2021 a, chyn belled ag sy’n ymarferol, dilynodd y Cyngor yr Egwyddorion Ymgynghori a gyflwynwyd gan y llywodraeth ac sydd ar gael ar https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance

Cymeradwywyd y polisi hwn mewn cyfarfod o’r Cyngor Llawn ar 4fed Tachwedd 2021 ac fe’i cyhoeddwyd ar 3ydd Ionawr 2022, ynghyd â bod ar gael ar www.monmouthshire.gov.uk

## 1.6 Awdurdodau â Chyfrifoldeb

Wrth arfer pwerau'r Cyngor dan Adran 157(h) o'r Ddeddf i ddynodi, yn ysgrifenedig, gorff sy'n hyfedr i gynghori'r Cyngor ynghylch amddiffyn plant rhag niwed, cafodd yr egwyddorion canlynol eu cymhwyso:

- Yr angen i'r corff fod yn gyfrifol am faes sy'n cwmpasu ardal gyfan y Cyngor;
- Yr angen i'r corf gynnwys cynrychiolwyr uwch a chyfrifol o gyrff cyhoeddus priodol yn ardal y fwrdeistref sirol, sydd â phrif ddyletswydd, y cyfrifoldeb dros amddiffyn plant rhag niwed.

Yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Hapchwarae mae'r Cyngor hwn yn dynodi'r Adran Gofal Cymdeithasol a'r Adran Diogelu ac Iechyd at y diben hwn. Mae manylion y cyrff a nodwyd o dan y Ddeddf sydd i'w trin fel Awdurdodau Cyfrifol ar gael trwy wefan y Cyngor.

## 1.7 Partïon â Diddordeb

Gall Partïon â Diddordeb wneud sylwadau am geisiadau am drwydded, neu wneud cais am adolygiad o drwydded bresennol yn seiliedig ar y tri amcan trwyddedu fel y manylir ym mharagraff 1.3 o'r Datganiad Polisi hwn.
Parti â Diddordeb yw rhywun sydd:-

(a) Yn byw yn ddigon agos i'r safle i fod yn debygol o gael ei effeithio gan y gweithgareddau awdurdodedig;
(b) Â diddordebau busnes a allai gael eu heffeithio gan y gweithgareddau awdurdodedig; neu
(c) Yn cynrychioli personau yn y naill neu'r llall o'r ddau grŵp uchod.

Yr egwyddorion y bydd y Cyngor yn eu cymhwyso i benderfynu a yw person yn Barti â Diddordeb yw:

Bydd pob achos yn cael ei benderfynu yn ôl ei deilyngdod. Ni fydd y Cyngor hwn yn cymhwyso rheol anhyblyg wrth wneud penderfyniadau. Bydd yn ystyried yr enghreifftiau o ystyriaethau a ddarperir yng Nghanllawiau'r Comisiwn Hapchwarae ar gyfer awdurdodau lleol. Bydd hefyd yn ystyried Canllawiau'r Comisiwn Hapchwarae y dylid rhoi'r dehongliad ehangaf posibl i "fuddiannau busnes" ac yn cynnwys partneriaethau, elusennau, grwpiau ffydd a phractisau meddygol a'r Bwrdd Iechyd Lleol.

Gall Partïon â Diddordeb fod yn bersonau sydd wedi'u hethol yn ddemocrataidd, fel Cynghorwyr ac ASau. Ni fydd angen unrhyw dystiolaeth benodol o ofyn i gynrychioli unigolyn â diddordeb cyhyd â bod y Cynghorydd / AS yn cynrychioli'r ward sy'n debygol o gael ei heffeithio. Yn yr un modd, bydd Cynghorau Tref a Chymuned sy'n debygol o gael eu heffeithio yn cael eu hystyried fel partïon â diddordeb. Ar wahân i'r rhain, fodd bynnag, yn gyffredinol bydd y Cyngor hwn yn gofyn am dystiolaeth ysgrifenedig bod

person, corff (e.e. eiriolwr / perthynas) 'yn cynrychioli' rhywun sydd naill ai'n byw yn ddigon agos at yr adeilad i fod yn debygol o gael ei effeithio gan y gweithgareddau awdurdodedig a / neu fuddiannau busnes a allai gael eu heffeithio gan y gweithgareddau awdurdodedig. Mae gohebiaeth gan un o'r unigolion hyn, yn gofyn am gynrychiolaeth yn ddigonol.

Os yw unigolion yn dymuno mynd at Gynghorwyr i ofyn iddynt gynrychioli eu barn, yna dylid cymryd gofal nad yw'r Cynghorwyr yn rhan o'r Is-bwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio sy'n delio â'r cais am drwydded neu fod ganddynt fuddiant personol mewn unrhyw ffordd arall a fyddai'n eu hatal nhw rhag cymryd rhan mewn gwrandawiad. Os oes unrhyw amheuon yna cysylltwch â'r Adran Drwyddedu.

## 1.8 Cyfnewid Gwybodaeth

Yr egwyddor y bydd y Cyngor yn ei chymhwyso mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth rhyngddo a'r Comisiwn Hapchwarae a'r cyrff hynny a restrir yn Atodlen 6 o'r Ddeddf yw y bydd yn gweithredu yn unol â darpariaethau Deddf Hapchwarae 2005 sy'n cynnwys y ddarpariaeth na fydd y ddeddfwriaeth ddiogelu data, fel y'i diffinnir yn adran 3 o Ddeddf Diogelu Data 2018, yn cael ei thorri. Bydd y Cyngor hefyd yn rhoi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y Comisiwn Hapchwarae i Awdurdodau Lleol ar y mater hwn, yn ogystal ag unrhyw reoliadau perthnasol a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan y pwerau a ddarperir yn Neddf Hapchwarae 2005.

## 1.9 Gorfodi

Egwyddorion y Cyngor yw y bydd yn cael ei arwain gan Ganllawiau'r Comisiwn Hapchwarae i awdurdodau lleol, Cod y Rheoleiddwyr a pholisi gorfodi'r cyngor. Bydd yn ymdrechu i fod:

- Yn gymesur: dylai rheoleiddwyr ymyrryd yn unig pan fod angen, dylai datrysiadau fod yn briodol i'r risg a berir, a chostau'n cael eu nodi a'u lleihau;
- Yn atebol: mae'n rhaid i reoleiddwyr allu cyfiawnhau penderfyniadau, a bod yn gyfrwng craffu cyhoeddus;
- Yn gyson: mae'n rhaid uno a gweithredu rheolau a safonau yn deg;
- Yn dryloyw: dylai rheoleiddwyr fod yn agored, dylent gadw rheolau'n syml ac yn hawdd eu defnyddio; ac
- Wedi'i dargedu: dylai'r rheoleiddio ganolbwyntio ar y broblem, a lleihau sgil-effeithiau.

Yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Hapchwarae i Awdurdodau Trwyddedu, bydd y Cyngor yn ceisio osgoi dyblygu gyda chyfundrefnau rheoleiddio eraill cyn belled ag y bo modd.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu a gweithredu rhaglen arolygu ar sail risg, yn seiliedig ar y canlynol:

- Yr amcanion trwyddedu;
- Y codau ymarfer perthnasol;
- Y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae.
- Yr egwyddorion a amlinellir yn y Datganiad hwn o Bolisi Trwyddedu.
- Polisi gorfodi'r cyngor.

Prif rôl gorfodi a chydymffurfio'r Cyngor hwn o ran Deddf Hapchwarae 2005 yw sicrhau cydymffurfiad â'r Trwyddedau Safle a chaniatadau eraill, y mae'n eu hawdurdodi. Y Comisiwn Hapchwarae yw'r corff gorfodi ar gyfer Trwyddedau Gweithredwr a Thrwyddedau Personol. Mae'r Cyngor yn delio â phryderon ynghylch cynhyrchu, cyflenwi neu atgyweirio peiriannau hapchwarae ond dylid eu hysbysu i'r Comisiwn Hapchwarae.

Bydd y cyngor yn ystyried dogfen ganllaw'r Comisiwn Hapchwarae 'Agwedd at Bwrcasu Profion' wrth ystyried prynu profion mewn adeiladau hapchwarae. Bydd y cyngor hefyd yn dilyn ei bolisïau a'i weithdrefnau ei hun o ran defnyddio prynwyr profion ar bersonau dan oed.

Mae'r Cyngor hefyd yn wybodus am y datblygiadau diweddaraf o ran gwaith y Swyddfa Cyflenwi Rheoleiddio Gwell wrth iddo ystyried swyddogaethau rheoleiddio awdurdodau lleol.

Bydd y cyngor yn ystyried dogfen ganllaw'r Comisiwn Hapchwarae 'Agwedd at Brynu Profion' wrth ystyried prynu profion mewn safleoedd hapchwarae. Bydd y cyngor hefyd yn dilyn ei bolisïau a'i weithdrefnau ei hun o ran defnyddio prynwyr profion dan oed.

Mae'r Cyngor hefyd yn gwneud yn siŵr ei fod yn wybodus am ddatblygiadau o ran gwaith y Swyddfa Cyflenwi Rheoleiddio Gwell wrth iddo ystyried swyddogaethau rheoleiddio awdurdodau lleol.

### 1.10 Hawliau Sylfaenol

O dan delerau'r Ddeddf gall unrhyw unigolyn / cwmni wneud cais am amrywiaeth o ganiatadau a chael eu ceisiadau wedi eu hystyried yn ôl eu rhinweddau unigol. Yn yr un modd, mae gan unrhyw Barti â Diddordeb neu Awdurdod â Chyfrifoldeb hawl i wneud sylwadau perthnasol ar gais neu i ofyn am adolygiad o drwydded neu dystysgrif lle gwnaed darpariaeth iddynt wneud hynny yn y Ddeddf.

Mae gan ymgeiswyr a'r rhai sy'n cyflwyno sylwadau perthnasol mewn perthynas â cheisiadau i'r Cyngor hawl i apelio i'r Llys Ynadon yn erbyn penderfyniadau'r Cyngor.

### 1.11 Integreiddio Strategaethau ac Osgoi Dyblygu

Trwy ymgynghori'n eang cyn i'r Datganiad Polisi hwn gael ei gyhoeddi, bydd y Cyngor yn ystyried polisïau lleol sy'n ymwneud ag atal troseddau, diwylliant, trafnidiaeth, cynllunio a thwristiaeth fel rhan o strategaeth integredig ar gyfer y

Cyngor, yr Heddlu ac asiantaethau eraill. Efallai na fydd llawer o'r strategaethau hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â hyrwyddo'r tri amcan trwyddedu, ond gallant effeithio'n anuniongyrchol arnynt.

Wrth ystyried unrhyw gais, bydd y Cyngor yn osgoi dyblygu gyda chyfundrefnau rheoleiddio eraill cyn belled ag y bo modd. Felly, ni fydd y Cyngor yn atodi amodau i drwydded oni bai eu bod yn cael eu hystyried yn angenrheidiol, yn rhesymol ac yn gymesur â'r defnydd o eiddo ar gyfer hapchwarae sy'n gyson â'r amcanion trwyddedu.

### 1.12 Strategaeth Datblygu Cymunedol Cynaliadwy

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gynhyrchu strategaeth gymunedol o fewn fframwaith Strategaeth Datblygu Cynaliadwy'r DU - “Gwell Ansawdd Bywyd” a strategaethau rhanbarthol perthnasol. Mae Deddf Llesiant a Chenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i holl awdurdodau lleol Cymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, gyda chymunedau a gyda’i gilydd, ac atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

Mae strategaethau cymunedol yn darparu canolbwynt ar gyfer nodi materion a dyheadau lleol ar gynhwysiant cymdeithasol, diogelu'r amgylchedd, cyflogaeth a datblygu economaidd.

Mae partneriaethau strategol lleol, sy'n nodweddiadol yn cynnwys yr heddlu, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, a chynrychiolwyr o sefydliadau addysg, busnes a'r sector gwirfoddol, yn gyfrifol am gyflawni amcanion a osodir yn lleol.

O dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 mae’n rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i effaith debygol arfer eu swyddogaethau ar, a gwneud popeth o fewn eu gallu i atal trosedd ac anhrefn yn yr ardal. Bydd y Cyngor yn rhoi sylw arbennig i effaith debygol trwyddedu ar droseddau ac anhrefn cysylltiedig yn y Sir, yn enwedig wrth ystyried lleoliad, effaith, gweithrediad a rheolaeth yr holl geisiadau trwydded / hawlen arfaethedig, adnewyddu ac amrywiadau mewn amodau.

# 2. Trwyddedau Safle

### 2.1 Egwyddorion Cyffredinol

Mae Trwyddedau Safle yn awdurdodi darparu cyfleusterau hapchwarae ar y canlynol :-

- Safleoedd Casino;

- Safleoedd Bingo;
- Safleoedd Hapchwarae (gan gynnwys traciau rasio a ddefnyddir gan gyfryngwyr hapchwarae);
- Canolfannau Hapchwarae i Oedolion (CHOnau);
- Canolfannau Adloniant Teulu Family (CATnau).

Ac eithrio yn achos Traciau (lle nad y deiliad o bosibl yw'r person sy'n cynnig hapchwarae), dim ond i'r rhai y rhoddir Trwydded Gweithredwyr iddynt gan y Comisiwn Hapchwarae y rhoddir Trwyddedau Safle.

Mae Trwyddedau Safle yn amodol ar y gofynion a nodir yn Neddf Hapchwarae 2005 a rheoliadau, yn ogystal ag amodau gorfodol a diofyn penodol, y manylir arnynt mewn rheoliadau a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Gall awdurdodau trwyddedu eithrio amodau diofyn a hefyd atodi eraill, lle credir ei fod yn briodol.

Mae'r Cyngor yn ymwybodol, wrth wneud penderfyniadau am Drwyddedau Safle, y dylai geisio caniatáu defnyddio adeilad ar gyfer hapchwarae i'r graddau y mae'n credu ei fod: -

- Yn unol ag unrhyw god ymarfer perthnasol a gyhoeddir gan y Comisiwn Hapchwarae;
- Yn unol ag unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddir gan y Comisiwn Hapchwarae;
- Yn rhesymol gyson gyda';r amcanion trwyddedu; ac
- Yn unol â'r Datganiad Polisi.

Gallai'r Cyngor hefyd ystyried mesurau i gwrdd â'r amcanion trwyddedu wrth wneud penderfyniadau o'r fath, er enghraifft:

- Cynlluniau Prawf Oedran
- Teledu Cylch Cyfyng
- Goruchwylio mynedfeydd/ardaloedd peiriannau
- Gwahanu ardaloedd yn ffisegol
- Lleoliad mynedfa
- Hysbysiadau/arwyddion
- Oriau agor penodol
- Cynlluniau hunan-eithrio
- Darparu taflenni gwybodaeth/rhifau llinell gymorth ar gyfer sefydliadau megis GamCare;
- Mesurau/hyfforddiant ar gyfer staff ar y modd i ddelio â phlant ar y safle, er enghraifft, amheuaeth o driwantiaeth o'r ysgol.

Nid yw'r rhestr yn orfodol, nac yn hirfaith, ac nid yw ond yn arwydd o fesurau enghreifftiol.

Gwerthfawrogir, yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Hapchwarae ar gyfer awdurdodau lleol, "nad yw gwrthwynebiadau moesol i hapchwarae yn rheswm dilys i wrthod ceisiadau am Drwyddedau Safle" a hefyd nad yw'r galw nas diwallwyd yn faen prawf ar gyfer awdurdod trwyddedu.

Mae'r Amodau Trwydded a'r Cod Ymarfer (ATChY) a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae yn gosod y cyfrifoldeb ar ddeiliaid trwydded i gwblhau asesiad risg. Bydd y cyngor yn ystyried hyn wrth ystyried ceisiadau. Ymdrinnir â hyn yn fanwl yn Adran 6 y datganiad hwn

***Diffiniad o "Safle":***

Diffinnir safle yn y Ddeddf fel "unrhyw le". Felly mae adran 152 yn atal mwy nag un drwydded safle i fod yn gymwys ar gyfer unrhyw le. Ond gallai un safle fod yn destun mwy nag un drwydded safle, ar yr amod ei fod ar gyfer gwahanol rannau o'r safle a gellir ystyried yn rhesymol bod gwahanol rannau'r safle yn safleoedd gwahanol. Cymerwyd y dull hwn i ganiatáu i safleoedd mawr, aml-uned fel parc pleser, pier, trac neu ganolfan siopa gael trwyddedau safle arwahanol, lle mae mesurau diogelwch priodol ar waith. Fodd bynnag, dylai awdurdodau trwyddedu roi sylw arbennig os oes materion yn ymwneud ag isadrannau un adeilad neu lain a dylent sicrhau bod amodau gorfodol yn ymwneud â mynediad rhwng saf yn cael eu dilyn.

Mae'r Comisiwn Hapchwarae yn nodi yn ei Ganllawiau i Awdurdodau Trwyddedu: "Yn y rhan fwyaf o achosion y disgwyl yw y bydd un adeilad / llain yn destun cais am drwydded. Ond, nid yw hynny'n golygu na all llain adeiladu sengl fod yn destun trwydded adeilad ar wahân, e.e. yr islawr a'r llawr gwaelod, os ydynt wedi'u ffurfweddu'n dderbyniol. Bydd p'un a ellir ystyried gwahanol rannau o adeilad yn briodol fel safle ar wahân yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Mae'n amlwg y bydd lleoliad yr adeilad yn ystyriaeth bwysig ac mae'n debygol y bydd addasrwydd yr adran yn fater i'w drafod rhwng y gweithredwr a'r swyddog trwyddedu.

Fodd bynnag, nid yw'r Comisiwn o'r farn y gellir ystyried yn iawn ardaloedd o adeilad sydd wedi'u gwahanu'n artiffisial neu dros dro, er enghraifft, gan raffau neu raniadau symudol, fel gwahanol safleoedd. "

Mae'r Cyngor yn cymryd sylw arbennig o Ganllawiau'r Comisiwn Hapchwarae ar gyfer awdurdodau lleol sy'n nodi y dylai awdurdodau trwyddedu gymryd gofal arbennig wrth ystyried ceisiadau am drwyddedau lluosog ar gyfer adeilad a'r rheini sy'n ymwneud â rhan arwahanol o adeilad a ddefnyddir at ddibenion eraill (heblaw hapchwarae). Yn benodol, dylent fod yn ymwybodol o'r canlynol -

- Mae'r trydydd amcan trwyddedu yn ceisio amddiffyn plant rhag cael eu niweidio gan hapchwarae. Yn ymarferol mae hynny'n golygu, nid yn unig eu hatal rhag cymryd rhan mewn hapchwarae, ond hefyd eu hatal rhag bod yn agos iawn at hapchwarae. Felly dylai safle gael ei ffurfweddu fel na chaiff plant eu gwahodd i gymryd rhan mewn hapchwarae, fel na chânt fynediad damweiniol iddo, neu arsylwi'n agos arno, lle cânt eu gwahardd rhag cymryd rhan; The third licensing objective seeks to protect children from being;
- Dylai mynedfeydd i ac allanfeydd o rannau o adeilad, a gwmpesir gan un neu fwy o drwyddedau safle fod ar wahân ac yn adnabyddadwy, fel

nad yw gwahanu gwahanol safleoedd yn cael ei gyfaddawdu ac nad yw pobl yn 'mynd yn ddiarwybod' i ardal hapchwarae. Yn y cyd-destun hwn dylai fel arfer fod yn bosibl cael mynediad i'r safle heb fynd drwy safle trwyddedu arall neu safle â hawlen;
- Dylai cwsmeriaid fod yn gallu cymryd rhan yn y gweithgaredd a nodir ar y drwydded safle.

Mae'r Canllawiau hefyd yn rhoi rhestr o ffactorau y dylai'r awdurdod trwyddedu fod yn ymwybodol ohonynt, ac a allai gynnwys:

- A oes gan y safle gofrestriad ar wahân ar gyfer ardrethi busnes?
- A yw'r safle sydd gyfagos i'r Safle ym mherchnogaeth yr un person neu berson arall?
- A ellir cael mynediad i bob un o'r safleoedd o'r stryd neu dramwyfa gyhoeddus?
- A ellir cael mynediad i'r safle o unrhyw safle hapchwarae arall yn unig?

## 2.2 Amgylchedd Trwyddedu Priodol

Mae'r Canllawiau i Awdurdodau Lleol a'r Amodau Trwydded a Chodau Ymarfer (ATChY), yn nodi materion ychwanegol y dylai'r cyngor eu hystyried wrth ystyried ceisiadau trwyddedu am drwyddedau safle.

Mae'r Canllawiau yn rhagnodi cyfyngiadau ar weithgareddau gamblo ar safle, a elwid gynt yn weithgaredd hapchwarae sylfaenol. Bydd y cyngor yn ystyried unrhyw gais yn seiliedig ar y darpariaethau yn y codau a'r canllawiau hyn.

Lle darperir cyfleusterau hapchwarae mewn safle fel gweithgaredd atodol i brif bwrpas y safle; e.e. ardaloedd gwasanaeth traffyrdd a chanolfannau siopa, bydd y cyngor yn disgwyl i'r ardal hapchwarae gael ei diffinio'n glir er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid yn gwbl ymwybodol eu bod yn gwneud dewis i fynd i mewn i'r adeilad hapchwarae, a bod y safle yn cael ei oruchwylio'n ddigonol bob amser.

Bydd y Cyngor yn ystyried y rhain ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill wrth wneud ei benderfyniad, yn dibynnu ar holl amgylchiadau'r achos.

Atgynhyrchir Canllawiau'r Comisiwn Hapchwarae ar gyfer darpariaethau mynediad perthnasol i bob math o safle yn Atodiad A.

## 2.3 Safle "yn barod ar gyfer hapchwarae"

Mae'r Canllawiau yn nodi y dylid rhoi trwydded i ddefnyddio safle ar gyfer hapchwarae yn unig mewn safle mae'r awdurdod trwyddedu yn fodlon y bydd yn mynd i fod yn barod i'w ddefnyddio ar gyfer hapchwarae yn y dyfodol rhesymol agos, yn gyson â graddfa'r adeilad neu'r addasiadau sy'n ofynnol cyn y gellir defnyddio'r safle.

Os nad yw'r gwaith o adeiladu safle wedi'i gwblhau eto, neu os oes angen ei newid, neu os nad oes gan yr ymgeisydd hawl i'w feddiannu eto, yna dylid gwneud cais am ddatganiad dros dro yn lle.

Wrth benderfynu a ellir rhoi trwydded safle lle mae gwaith adeiladu neu newidiadau yn dal heb gael eu datrys mewn safle, bydd y Cyngor yn penderfynu ar geisiadau yn ôl eu rhinweddau, gan gymhwyso proses ystyried dau gam:

- Yn gyntaf, a ddylai'r safle gael ei ganiatáu ar gyfer hapchwarae;
- Yn ail, a ellir rhoi amodau priodol yn eu lle i ddarparu ar gyfer y sefyllfa nad yw'r safle eto yn y cyflwr y dylai fod ynddo cyn i hapchwarae ddigwydd.

Dylai ymgeiswyr nodi bod gan yr awdurdod hwn hawl i benderfynu ei bod yn briodol rhoi trwydded yn ddarostyngedig i amodau, ond nid oes rheidrwydd arno i roi trwydded o'r fath.

Gellir gweld enghreifftiau manylach o'r amgylchiadau lle gellir rhoi trwydded o'r fath yn y Canllawiau.

## 2.4 Ystyriaethau Eraill

***Lleoliad:***

Mae'r Cyngor yn ymwybodol na ellir ystyried materion galw o ran lleoliad safle ond bod ystyriaethau o ran yr amcanion trwyddedu yn berthnasol i'w broses o wneud penderfyniadau. Yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Hapchwarae ar gyfer awdurdodau lleol, bydd y Cyngor yn talu sylw arbennig i amddiffyn plant a phobl agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio gan hapchwarae, yn ogystal â materion trosedd ac anhrefn. Pe bai unrhyw bolisi penodol yn cael ei benderfynu o ran ardaloedd lle na ddylid lleoli safleoedd hapchwarae, bydd y Datganiad hwn yn cael ei ddiweddaru. Dylid nodi nad yw unrhyw bolisi o'r fath yn atal unrhyw gais rhag cael ei wneud a bydd pob cais yn cael ei benderfynu yn ôl ei deilyngdod, gyda'r cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i ddangos sut y gellir goresgyn pryderon posibl.

***Cynllunio***

Mae Canllawiau'r Comisiwn Hapchwarae i Awdurdodau Trwyddedu yn nodi:

- Wrth benderfynu ceisiadau mae gan yr awdurdod trwyddedu ddyletswydd i ystyried yr holl faterion perthnasol a pheidio ag ystyried unrhyw faterion amherthnasol, h.y. y rheini nad ydynt yn berthnasol i hapchwarae a'r amcanion trwyddedu. Un enghraifft o fater amherthnasol fyddai'r tebygolrwydd o ymgeisydd yn cael caniatâd cynllunio neu gymeradwyaeth rheoliadau adeiladu ar gyfer ei gynnig.

Ni fydd y Cyngor yn ystyried materion amherthnasol yn unol â'r canllawiau uchod. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn nodi'r darn canlynol o'r Canllawiau:

- Wrth ddelio â chais am drwydded safle ar gyfer adeiladau a orffennwyd, ni ddylai'r awdurdod trwyddedu ystyried a yw'r adeiladau hynny wedi neu yn cydymffurfio â'r caniatadau cynllunio neu adeiladu. Dylai'r materion hynny gael eu trafod dan bwerau rheoli cynllunio a rheolau adeiladu, a heb ffurfio rhan o'r drwydded safle. Mae Adran 210 o Ddeddf 2005 yn atal awdurdodau trwyddedu rhag ystyried y tebygolrwydd o'r cais gan yr ymgeisydd yn derbyn caniatâd cynllunio neu adeiladu wrth ystyried cais am drwydded safle. Yn yr un modd, nid yw cais am drwydded safle hapchwarae yn rhagfarnu neu'n atal unrhyw weithred a allai fod yn briodol dan y gyfraith mewn perthynas â chynllunio neu adeiladu.

2.5 **Dyblygu â Chyfundrefnau Rheoleiddiol Eraill:**
Mae'r Cyngor yn ceisio osgoi unrhyw ddyblygu gyda systemau statudol / rheoleiddiol eraill lle bo hynny'n bosibl, gan gynnwys cynllunio. Ni fydd y Cyngor yn ystyried a yw cais am drwydded yn debygol o gael caniatâd cynllunio neu gymeradwyaeth rheoliadau adeiladu wrth iddo'i ystyried. Er hynny, bydd yn gwrando ar, ac yn ystyried yn ofalus, unrhyw bryderon ynghylch amodau, na all trwyddedai eu diwallu oherwydd cyfyngiadau cynllunio, pe bai sefyllfa o'r fath yn codi.

Wrth ddelio â chais am drwydded safle ar gyfer adeiladau gorffenedig, ni fydd y Cyngor yn ystyried a oes yn rhaid i'r adeiladau hynny gydymffurfio â'r cydsyniadau cynllunio neu adeiladu angenrheidiol. Ni fydd risgiau tân neu iechyd a diogelwch yn cael eu hystyried, gan yr ymdrinnir â'r materion hyn o dan reolaeth gynllunio berthnasol, adeiladau a rheoliadau eraill ac ni ddylent fod yn rhan o'r ystyriaeth ar gyfer y drwydded safle.

**2.6 Amcanion Trwyddedu:**

Mae'n rhaid i drwyddedau safle a roddir fod yn weddol gyson â'r amcanion trwyddedu. O ran yr amcanion hyn, mae'r Cyngor wedi ystyried Canllawiau'r Comisiwn Hapchwarae i awdurdodau trwyddedu a gwneir rhai sylwadau isod.

***Atal hapchwarae rhag bod yn ffynhonnell trosedd neu anhrefn, bod yn gysylltiedig â throsedd neu anhrefn neu gael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd:***

Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod y Comisiwn Hapchwarae yn chwarae rhan flaenllaw wrth atal hapchwarae rhag bod yn ffynhonnell trosedd. Fodd bynnag, mae Canllawiau'r Comisiwn Hapchwarae yn rhagweld y dylai awdurdodau trwyddedu roi sylw i leoliad arfaethedig safleoedd hapchwarae o ran yr amcan trwyddedu hwn. Felly, lle mae ardal wedi profi lefelau uchel o droseddau cyfundrefnol, bydd y Cyngor yn ystyried yn ofalus a yw safleoedd hapchwarae yn addas i'w lleoli yno ac a allai amodau fod yn addas megis darparu goruchwylwyr drws. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r gwahaniaeth

rhwng anhrefn a niwsans a bydd yn ystyried ffactorau megis a oedd angen cymorth yr heddlu a pha mor fygythiol oedd yr ymddygiad i'r rhai a allai ei weld, er mwyn gwneud y gwahaniaeth hwnnw. Ni ellir mynd i'r afael â materion niwsans trwy ddarpariaethau'r Ddeddf Hapchwarae.

**Sicrhau bod hapchwarae yn cael ei weithredu mewn ffordd deg ac agored:**

Mae'r Cyngor wedi nodi bod y Comisiwn Hapchwarae yn nodi nad yw'n disgwyl i awdurdodau trwyddedu ymwneud â sicrhau bod hapchwarae'n cael ei gynnal mewn ffordd deg ac agored, gan yr eir i'r afael â hyn trwy drwyddedau gweithredwr a thrwyddedau personol. Fodd bynnag, mae mwy o rôl o ran traciau, a eglurir yn fanylach yn yr adran "traciau".

***Amddiffyn plant a phobl agored i niwed eraill rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio gan hapchwarae:***

Mae'r Cyngor wedi nodi bod Canllawiau'r Comisiwn Hapchwarae ar gyfer awdurdodau lleol yn nodi bod yr amcan hwn yn golygu atal plant rhag cymryd rhan mewn hapchwarae (yn ogystal â chyfyngu ar hysbysebu fel nad yw cynhyrchion hapchwarae wedi'u hanelu at blant neu eu bod yn arbennig o ddeniadol i blant). Bydd y Cyngor, felly, yn ystyried, fel yr awgrymir yn y Canllawiau hyn, a oes angen mesurau penodol mewn safle penodol, mewn perthynas â'r amcan trwyddedu hwn. Gall mesurau priodol gynnwys goruchwylio mynedfeydd / peiriannau, gwahanu ardaloedd, ac ati.

Mae'r Cyngor hefyd yn ymwybodol o'r Codau Ymarfer, y mae'r Comisiwn Hapchwarae yn eu cyhoeddi o ran yr amcan trwyddedu hwn, mewn perthynas â safle penodol.

O ran y term "pobl agored i niwed" nodir nad yw'r Comisiwn Hapchwarae yn ceisio cynnig diffiniad ond mae'n nodi "y bydd at ddibenion rheoleiddio yn tybio bod y grŵp hwn yn cynnwys pobl sy'n hapchwarae mwy nag y maent eisiau ei wneud; pobl sy'n hapchwarae y tu hwnt i'w modd; a phobl na fydd efallai'n gallu gwneud penderfyniadau gwybodus neu gytbwys ynghylch hapchwarae oherwydd nam meddyliol, alcohol neu gyffuriau." Bydd y Cyngor yn ystyried yr amcan trwyddedu hwn fesul achos.

Mae Canllawiau'r Comisiwn Hapchwarae i Awdurdodau Lleol yn nodi ystyriaethau y mae'n rhaid i weithredwr eu gwneud er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc rhag cael mynediad i safleoedd hapchwarae.

Mae'r Amodau Trwydded a'r Codau Ymarfer (LCCP) yn rhagnodi sut y mae'n rhaid i weithredwyr atal plant rhag defnyddio gweithgareddau hapchwarae dan gyfyngiadau oedran, yn enwedig lle mae peiriannau hapchwarae wedi'u trwyddedu.

Yn benodol, mae'n rhaid i weithredwyr sicrhau:

- bod yr holl staff wedi cael eu hyfforddi;

- bod yr holl gwsmeriaid yn cael eu goruchwylio pan fyddant mewn safleoedd hapchwarae;
- y rheidrwydd o gael gweithdrefnau yn eu lle ar gyfer nodi cwsmeriaid sydd mewn perygl o niwed sy’n gysylltiedig â hapchwarae a hefyd lle i arwain pobl am gymorth (mae hyfforddiant ar gael o nifer o ffynonellau gan gynnwys Cyngor ar Bopeth (CAB) a GambleAware).

Bydd y cyngor yn disgwyl i bob gweithredwr fod â pholisïau a gweithdrefnau ar waith fel sy'n ofynnol gan godau ACTY ar gyfrifoldeb cymdeithasol i gwmpasu pob agwedd ar y cod, yn enwedig cofnodion hyfforddi staff a chofnodion hunan-wahardd.

Mae darpariaethau pellach mewn perthynas â hunan-eithrio a marchnata wedi'u cynnwys yn y cod cyfrifoldeb cymdeithasol. Bydd y cyngor yn ystyried yr holl amodau a chodau wrth ystyried ceisiadau neu wrth gyflawni gweithgareddau gorfodi.

Gweler adran 6 o'r datganiad polisi hwn am fanylion pellach ac ar ofynion y cyngor mewn perthynas â'r ATChY.

Bydd y Cyngor yn ystyried adroddiad Prif Swyddog Meddygol Cymru i gefnogi'r amcan trwyddedu er mwyn amddiffyn plant a phobl agored i niwed eraill rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio gan hapchwarae.

Byddai'r Cyngor yn disgwyl i ymgeiswyr a deiliaid trwydded gynnal y gwiriadau angenrheidiol ar yr holl aelodau staff perthnasol i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer eu cyflogi, yn enwedig o ran safleoedd lle mae gan blant a phobl agored i niwed fynediad.

## 2.7 Bet-Watch:

Mae'r cyngor yn annog a bydd yn cefnogi gweithredwyr lleol i greu a chynnal rhwydwaith rhannu gwybodaeth i drafod materion sy’n ymwneud â phroblemau’r hapchwaraewyr hynny a gafodd eu nodi. Bydd hwn hefyd yn gyfle i weithredwyr drafod materion gyda'r swyddogion trwyddedu.

## 2.8 Amodau:

Bydd unrhyw amodau a atodir i drwyddedau yn gymesur a byddant:

- Yn berthnasol i’r angen i wneud yr adeilad arfaethedig yn addas fel cyfleuster hapchwarae;
- Yn uniongyrchol gysylltiedig â’r safle a’r math o drwydded y gwneir cais amdani;
- Mewn perthynas deg a rhesymol â graddfa a‘r math o safle; ac
- Yn rhesymol ym mhob ffordd arall.

Gwneir penderfyniadau ar amodau unigol fesul achos, er y bydd nifer o fesurau y bydd y Cyngor yn ystyried eu defnyddio pe bai angen canfyddedig, megis defnyddio goruchwylwyr, arwyddion priodol ar gyfer ardaloedd oedolion yn unig, ac ati. Bydd sylw penodol yn erbyn yr asesiad risg lleol ar gyfer pob adeilad, wrth wneud penderfyniadau o'r fath. Gwneir sylwadau penodol yn hyn o beth o dan rai o'r mathau o drwyddedau isod. Bydd y Cyngor hefyd yn disgwyl i'r ymgeisydd trwydded gynnig ei awgrymiadau ei hun ynghylch ffyrdd y gellir cyflawni'r amcanion trwyddedu yn effeithiol, ar y cyd ag amodau gorfodol a bennir yn Neddf Hapchwarae 2005 (Amodau Gorfodol a Diffygion) (Cymru a Lloegr) Rheoliadau 2007.

Gallai'r amodau y gall y Cyngor eu gosod ar drwydded gynnwys;

Amodau diogelwch

- O leiaf dau aelod o staff ar ôl 10pm;
- Bydd gan y safle larwm tresmaswr a botwm panig;
- Gosodir monitor y tu fewn i'r safle uwchben y drws blaen yn dangos delweddau Teledu Cylch Cyfyng o gwsmeriaid yn cerdded i mewn i'r safle.

Amodau gwrthgymdeithasol

- Bydd y trwyddedai yn datblygu ac yn cytuno gweithdrefn gyda'r heddlu ynghylch cofnodi digwyddiadau, gan gynnwys y math a'r lefel o ddigwyddiad a'r dull cyfathrebu, er mwyn galluogi'r heddlu i fonitro unrhyw broblemau sy'n codi yn y safle neu mewn perthynas â'r safle;
- Bydd y trwyddedai yn gosod ac yn cynnal arwydd yn y fynedfa sy'n nodi "mai dim ond diodydd a brynwyd ar y safle y gellir eu hyfed ar y safle;"
- Bydd y trwyddedai yn gweithredu polisi o wahardd unrhyw gwsmer sy'n ymwneud â throsedd neu anhrefn o fewn neu'r tu allan i'r safle.

Rheolaethau dan oedran

- Bydd yn rhaid i gwsmeriaid sydd dan 21 oed ddarparu Prawf Adnabod;
- Dim peiriannau yn y Ganolfan Adloniant Teulu i'w lleoli o fewn un metr i fynediad y Ganolfan Hapchwarae i Oedolion;
- Dylai cofnodion hyfforddi staff neu gopïau ardystiedig fod ar gael yn y safle ar gyfer eu harolygu.

Rheolaethau amddiffyn chwaraewyr

- Ni fydd unrhyw bwynt codi arian na chyfleusterau ATM ar y safle;
- Bydd y trwyddedai yn hyfforddi staff ar faterion penodol sy'n ymwneud â'r ardal leol a bydd y staff yn trefnu sesiynau diweddaru yn gyfnodol. Mae'n rhaid cofnodi cyfranogiad yn yr hyfforddiant yn ffurfiol a chyflwynir y cofnodion i'r heddlu neu'r awdurdod trwyddedu ar gais;
- Arddangosir dogfennaeth GamCare yn amlwg ar y safle.

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ac nid yw ond yn rhoi enghraifft o'r math o amodau y gellir eu gosod yn dibynnu ar yr amgylchiadau ym mhob safle.

Bydd y Cyngor hefyd yn ystyried mesurau penodol, a allai fod yn ofynnol ar gyfer safleoedd, sy'n ddarostyngedig i sawl trwydded safle. Gall mesurau o'r fath gynnwys goruchwylio mynedfeydd; gwahanu hapchwarae o ardaloedd heblaw hapchwarae a fynychir gan blant; a goruchwylio peiriannau hapchwarae mewn adeiladau hapchwarae penodol i oedolion er mwyn dilyn yr amcanion trwyddedu. Mae'r materion hyn yn unol â Chanllawiau a Chodau Ymarfer Y Comisiwn Hapchwarae.

Bydd y Cyngor hefyd yn sicrhau, lle mae peiriannau categori C neu uwch yn cael eu cynnig mewn safle y derbynnir plant iddo:
:

- Bod yr holl beiriannau hynny yn cael eu lleoli mewn ardal o'r safle sy'n cael ei gwahanu o weddill y safle gan rwystr ffisegol sy'n effeithiol i atal mynediad oni bai drwy fynedfa ddynodedig;
- Mai oedolion yn unig gaiff eu caniatáu i'r ardal lle lleolir y peiriannau hyn;
- Bod mynediad i'r ardal lle lleolir y peirannau yn cael ei harolygu;
- Bod yr ardal lle lleolir y peiriannau hyn yn cael ei threfnu fel y gellir ei harolygu gan y staff neu'r deiliad trwydded; ac
- Ar y fynedfa i ardal o'r fath a'r tu fewn, bod hysbysiadau yn cael eu harddangos yn amlwg yn nodi bod mynediad i'r ardal yn cael ei wahardd i bersonau dan 18 oed.

Bydd yr ystyriaethau hyn yn berthnasol i safleoedd, gan gynnwys safleoedd lle mae sawl trwydded safle yn berthnasol.

Mae'r Cyngor yn ymwybodol y gall traciau fod yn destun un neu fwy nag un drwydded safle, ar yr amod bod pob trwydded yn ymwneud ag ardal benodol o'r trac. Yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Hapchwarae, bydd y Cyngor hwn yn ystyried yr effaith ar y trydydd amcan trwyddedu a'r angen i sicrhau bod mynedfeydd i bob math o safleoedd yn wahanol a bod plant yn cael eu heithrio o ardaloedd hapchwarae lle na chaniateir iddynt fynd i mewn.

Nodir bod yna amodau, na all y Cyngor eu gosod ar drwyddedau safle, sef:

- Unrhyw amod ar y drwydded safle sy'n ei gwneud yn amhosibl i gydymffurfio ag amod trwydded gweithredwr;
- Amodau sy'n ymwneud â chategorïau peiriannau hapchwarae, niferoedd, neu ddull o weithredu;
- Amodau sy'n nodi bod yn ofynnol i aelodaeth clwb neu gorff (mae Deddf Hapchwarae 2005 yn symud yn benodol y gofyniad aelodaeth ar gyfer casinos neu glybiau bingo ac mae'r ddarpariaeth hon yn ei atal rhag cael ei adfer); ac
- Amodau mewn perthynas ag arian betio, ffioedd, ennill neu wobrau.

### 2.9 Arolygwyr Drws:

Mae'r Comisiwn Hapchwarae yn cynghori yn ei Ganllaw i awdurdodau trwyddedu, os yw'n pryderu y gallai safle ddenu anhrefn, neu fod yn destun ymdrechion i fynediad heb awdurdod (e.e. gan blant a phobl ifanc) yna gall ofyn bod y mynedfeydd i'r safle yn cael eu rheoli gan oruchwyliwr drws, ac mae ganddo hawl i osod trwydded safle i'r perwyl hwn.

Pan benderfynir bod goruchwylio mynedfeydd / peiriannau yn briodol ar gyfer achosion penodol, bydd angen ystyried a oes angen trwyddedu'r Awdurdod Diwydiant Diogelwch ar y rhain ai peidio. Ni chymerir yn awtomatig bod angen eu trwyddedu gan fod y gofynion statudol ar gyfer gwahanol fathau o safleoedd yn amrywio.

### 2.10 Canolfannau Hapchwarae i Oedolion

Bydd y Cyngor yn rhoi sylw penodol i'r angen i amddiffyn plant a phobl agored i niwed rhag cael eu niweidio neu gael eu hecsbloetio gan hapchwarae a bydd yn disgwyl i'r ymgeisydd fodloni'r Cyngor y bydd mesurau digonol i sicrhau, er enghraifft, nad yw pobl ifanc dan 18 oed yn cael mynediad i'r safle.

Lle darperir cyfleusterau hapchwarae mewn safle fel gweithgaredd atodol i brif bwrpas yr adeilad; e.e. ardaloedd gwasanaeth traffordd a chanolfannau siopa, bydd y cyngor yn disgwyl i'r ardal hapchwarae gael ei diffinio'n glir er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid yn gwbl ymwybodol eu bod yn gwneud dewis i fynd i mewn i'r safle hapchwarae a bod yr adeilad yn cael ei oruchwylio'n ddigonol bob amser.

### 2.11 Canolfannau Adloniant Teulu (Wedi’u trwyddedu)

Bydd y Cyngor yn rhoi sylw penodol i'r angen i amddiffyn plant a phersonau agored i niwed rhag cael eu niweidio neu gael eu hecsbloetio gan hapchwarae a bydd yn disgwyl i'r ymgeisydd fodloni'r Cyngor, er enghraifft, y bydd mesurau digonol i sicrhau nad yw pobl ifanc dan 18 oed yn cael mynediad i’r ardaloedd peiriannau hapchwarae i oedolion yn unig. Mae ymgeisydd Canolfan Adloniant Teulu i ddarparu tystiolaeth bod gwiriad cofnod troseddol addas gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) wedi'i gynnal ar yr holl staff yn ei gyflogaeth.

Caniateir mynediad i blant a phobl ifanc i Ganolfannau Adloniant Teulu trwyddedig ond ni chaniateir iddynt chwarae peiriannau Categori C. Mae'r Cyngor yn disgwyl i'r ymgeisydd sicrhau y bydd mesurau digonol ar waith i atal pobl ifanc o dan 18 oed rhag cael mynediad i'r ardaloedd peiriannau hapchwarae i oedolion yn unig. Bydd y Cyngor yn disgwyl i ymgeiswyr gyflawni'r amcanion trwyddedu a chydymffurfio â'r holl amodau gorfodol a Chodau Ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiwn Hapchwarae.

Mae'n ofynnol bod gwahanu clir rhwng y mathau o beiriant er mwyn i blant beidio â chael mynediad at beiriannau Categori C. Mae’n rhaid i bob peiriant Categori C gael ei leoli mewn rhan o'r safle sydd wedi’i lleoli ar wahân i

weddill y safle gan rwystr corfforol, a fydd yn atal mynediad heblaw trwy fynedfa ddynodedig. Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau:

- mai oedolion yn unig a ganiateir i'r ardal lle lleolir y peiriannau;
- bod mynedfa i'r ardal lle lleolir y peiriannau yn cael ei arolygu;
- bod yr ardal lle lleolir y peiriannau yn cael ei harolygu yn cael ei threfnu fel y gall gael ei harsylwi gan staff y gweithredwr neu'r deiliad trwydded; ac
- ar y fynedfa i ac o fewn unrhyw ardal o'r fath bod hysbysiadau'n cael eu harddangos yn amlwg yn nodi bod mynediad i'r ardal yn cael ei wahardd i bersonau dan 18 oed.

## 2.12 Casinos

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gasinos yn gweithredu yn y Sir. Yn dilyn cryn ddadlau yn y Cyngor llawn ar 4th Tachwedd 2021 pasiwyd penderfyniad i beidio â rhoi trwyddedau casino yn Sir Fynwy fel y darperir ar ei gyfer yn adran Hapchwarae adran 166 2005. Gellir adolygu'r penderfyniad hwn yn ôl yr angen, ac o leiaf bob tair blynedd yn unol â mabwysiadu'r Datganiad o Bolisi Hapchwarae. Nid oes hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad hwn. Dylai darpar ymgeiswyr am drwydded nodi, gan fod y Cyngor hwn wedi pasio penderfyniad 'dim-casino' na fydd unrhyw geisiadau am drwydded safle casino yn cael eu hystyried. Bydd unrhyw geisiadau a dderbynnir yn cael eu dychwelyd gyda hysbysiad bod penderfyniad 'dim casino' ar waith.

## 2.13 Safleoedd Bingo

Bydd angen i Awdurdodau Trwyddedu fodloni eu hunain y gellir chwarae bingo mewn unrhyw safle bingo y maent yn rhoi trwydded safle ar ei gyfer. Bydd hon yn ystyriaeth berthnasol pan fydd gweithredwr safle bingo presennol yn gwneud cais i amrywio ei drwydded i eithrio ardal o'r safle presennol o'i gwmpas ac yna'n gwneud cais am drwydded safle newydd, neu drwyddedau lluosog, ar gyfer yr ardal honno neu'r ardaloedd hynny sydd wedi'u gwahardd.

Gall deiliad trwyddedau safle bingo sicrhau bod nifer o beiriannau hapchwarae categori B ar gael, heb fod yn fwy na 20% o gyfanswm nifer y peiriannau hapchwarae, sydd ar gael i'w defnyddio yn yr adeilad

Caniateir plant a phobl ifanc i mewn i adeiladau bingo; fodd bynnag, ni chaniateir iddynt gymryd rhan yn y bingo ac os oes peiriannau categori B neu C ar gael i'w defnyddio, mae'n rhaid gwahanu'r rhain oddi wrth ardaloedd lle caniateir plant a phobl ifanc.

Pan fydd peiriannau Categori C neu uwch ar gael yn yr adeilad bingo y mae plant yn cael eu derbyn iddo, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau;

- bod yr holl beiriannau o’r fath yn cael eu lleoli mewn ardal o’r safle ar wahân i weddill y safle gan rwystr ffisegol i atal mynediad heblaw am drwy fynedfa ddynodedig;
- dim ond oedolion gaiff eu caniatáu i’r ardal lle lleolir y peiriannau;
- caiff y fynedfa i’r ardal lle lleolir y peiriannau ei harolygu;
- caiff yr ardal lle lleolir y peiriannau ei threfnu fel y gall gael ei harsylwi gan staff neu’r deiliad trwydded; ac
- ar y fynedfa i, ac o fewn unrhyw ardal o’r fath, yn nodi bod mynediad i’r ardal yn cael ei wahardd i bersonau dan 18 oed.

Pan ganiateir bingo mewn safle sydd wedi’i drwyddedu i werthu alcohol, mae’n rhaid i hwn fod yn fingo trosiant isel yn unig a disgwylir i ymgeiswyr gydymffurfio ag unrhyw Godau Ymarfer a chyngor a gyhoeddir gan y Comisiwn Hapchwarae. Bydd angen Trwydded Weithredu Bingo ar gyfer bingo trosiant uchel.

## 2.14 Safleoedd Betio

***Peiriannau Betio:***

***Terfynell Gwasanaeth Betio (TGB):***

Pan ganiateir bingo mewn adeilad trwyddedig alcohol, rhaid i hwn fod yn fingo trosiant isel yn unig a disgwylir i ymgeiswyr gydymffurfio ag unrhyw Godau Ymarfer a chyngor a gyhoeddir gan y Comisiwn Hapchwarae. Bydd angen Trwydded Weithredu Bingo ar gyfer bingo trosiant uchel.

Mae'r Ddeddf yn nodi nad peiriant hapchwarae yw peiriant os caiff ei ddylunio neu ei addasu i'w ddefnyddio i fetio ar ddigwyddiadau go iawn yn y dyfodol. Efallai y bydd safleoedd betio yn sicrhau bod peiriannau ar gael sy'n derbyn betiau ar ddigwyddiadau byw, fel rasio ceffylau, yn lle rhoi bet dros y cownter. Nid yw'r “peiriannau betio” hyn yn beiriannau hapchwarae: dim ond awtomeiddio'r broses maen nhw, y gellir ei chynnal yn bersonol ac, felly, nid oes angen eu rheoleiddio fel peiriannau hapchwarae.

Fodd bynnag, lle mae peiriant ar gael i gymryd betiau ar rasys rhithwir (hynny yw, canlyniadau a / neu ddelweddau a gynhyrchir gan gyfrifiadur i ymdebygu i rasys neu ddigwyddiadau eraill) mae'r peiriant hwnnw'n beiriant hapchwarae ac yn cyfrif tuag at y nifer uchaf a ganiateir o beiriannau hapchwarae, ac mae’n rhaid iddo fodloni'r cyfyngiadau categori perthnasol ar gyfer y safle.

Bydd y Cyngor, yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Hapchwarae, yn ystyried maint y safle, nifer y safleoedd cownter sydd ar gael ar gyfer trafodion person i berson, a gallu'r staff i fonitro'r defnydd o'r peiriannau gan blant a phersonau ifanc (mae'n drosedd i'r rhai dan 18 oed fetio) neu gan bobl agored i niwed, wrth ystyried nifer / natur / amgylchiadau peiriannau betio y mae’r gweithredwr eisiau eu cynnig. Dylai'r safle hefyd arddangos hysbysiadau gyda chyswllt ar gyfer sefydliadau cymorth e.e. GamCare.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod gan rai bwcis nifer o safleoedd yn ei ardal. Er mwyn sicrhau bod unrhyw faterion cydymffurfio yn cael eu cydnabod a'u datrys ar y cam cynharaf, gofynnir i weithredwyr roi un pwynt cyswllt a enwir i'r awdurdod a ddylai fod yn uwch unigolyn ac y bydd yr Awdurdod yn cysylltu ag ef yn gyntaf pe bai unrhyw ymholiadau neu faterion cydymffurfio’n codi.

**2.15 Traciau**

Mae'r Cyngor yn ymwybodol y gall traciau fod yn destun un neu fwy nag un drwydded safle, ar yr amod bod pob trwydded yn ymwneud ag ardal benodol o'r trac. Yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Hapchwarae, bydd y Cyngor yn ystyried yn arbennig yr effaith ar y trydydd amcan trwyddedu (h.y. amddiffyn plant a phobl agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio gan hapchwarae) a'r angen i sicrhau bod mynedfeydd i bob math o safle yn wahanol a bod plant yn cael eu gwahardd o ardaloedd hapchwarae lle na chaniateir iddynt fynd i mewn iddynt.

Felly bydd y Cyngor yn disgwyl i'r ymgeisydd am drwydded safle ddangos mesurau addas i sicrhau nad oes gan blant fynediad at gyfleusterau hapchwarae i oedolion yn unig. Nodir y caniateir i blant a phobl ifanc fynd i mewn i ardaloedd trac lle darperir cyfleusterau ar gyfer betio ar ddiwrnodau pan fydd rasio cŵn a / neu rasio ceffylau yn digwydd, ond eu bod yn dal i gael eu hatal rhag mynd i ardaloedd lle mae peiriannau hapchwarae (heblaw categori peiriannau Ch).

**2.16 Peiriannau Hapchwarae:**

Mae sawl categori o beiriannau hapchwarae a ganiateir mewn safleoedd trwyddedig a safleoedd eraill ac mae nifer y peiriannau o'r fath y gellir eu caniatáu ym mhob math o safle hapchwarae wedi'u nodi yn y Ddeddf. Nid oes gan y Cyngor y pŵer i osod gwahanol derfynau nac ehangu neu gyfyngu ymhellach ar y categorïau o beiriannau a ganiateir. Yr eithriad i hyn yw safleoedd wedi’u trwyddedu i werthu alcohol sy'n dal trwyddedau peiriannau hapchwarae, lle mae gan awdurdodau trwyddedu ddisgresiwn i nodi nifer y peiriannau hapchwarae a ganiateir. Yn ogystal, gosodir terfynau ar wahân yn y Ddeddf ar gyfer rhai mathau o hawlenni a roddir gan awdurdodau trwyddedu. Mae tabl sy'n nodi hawlen peiriant hapchwarae ym mhob math o adeilad ynghlwm yn Atodiad C.

Mae isafswm oedran o 18 ar gyfer pob chwaraewr ar gyfer pob peiriant categori A, B ac C, gan gynnwys peiriannau hapchwarae categori B3A sy'n cynnig gemau ar ffurf loteri. Fodd bynnag, nid oes isafswm oedran ar gyfer chwaraewyr peiriannau categori Ch. Mae’n rhaid i ddeiliad unrhyw drwydded neu drwydded safle gydymffurfio â'r codau ymarfer a gyhoeddwyd gan y Comisiwn ar leoliad a mynediad at beiriannau hapchwarae gan blant a phobl ifanc, a'r gwahanu oddi wrth beiriannau categori C a B lle mae'r rheini hefyd wedi'u lleoli ar yr un safle.

Pan fydd gan yr ymgeisydd drwydded weithredu betio cronfa ac mae'n mynd i ddefnyddio'r hawl i bedwar peiriant gemau, dylai peiriannau (ac eithrio peiriannau Categori Ch) fod mewn ardaloedd lle mae plant wedi'u heithrio.

### 2.17 Peiriannau Betio:

Bydd y Cyngor, yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Hapchwarae, yn ystyried maint y safle a gallu staff i fonitro'r defnydd o beiriannau gan blant a phobl ifanc (mae'n drosedd i'r rhai dan 18 oed fetio) sy'n agored i niwed, wrth ystyried nifer / natur / amgylchiadau peiriannau betio y mae gweithredwr eisiau eu cynnig.

### 2.18 Ceisiadau a chynlluniau:

Mae'r Ddeddf a Rheoliadau Hapchwarae yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno cynlluniau o'r safle gyda'u cais, er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor y wybodaeth angenrheidiol i lunio barn wybodus ynghylch a yw'r safle yn addas ar gyfer hapchwarae. Fe'u defnyddir hefyd i'r Cyngor gynllunio gweithgaredd archwilio safleoedd yn y dyfodol.

Dylid llunio cynlluniau ar gyfer traciau i raddfa sy'n ddigon manwl i gynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol gan reoliadau.

Efallai y bydd rhai traciau wedi'u lleoli ar dir amaethyddol lle nad yw'r perimedr wedi'i ddiffinio yn rhinwedd wal neu ffens allanol, fel traciau rasio pwynt i bwynt. Mewn achosion o'r fath, pan godir ffi mynediad, gall deiliaid trwydded safle trac godi strwythurau dros dro i gyfyngu mynediad i adeilad.

Yn yr achosion prin lle na ellir diffinio'r perimedr allanol, mae'n debygol na fydd y trac dan sylw wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer cynnal digwyddiadau neu rasys chwaraeon yn aml. Mewn achosion o'r fath mae'n bosibl y bydd cyfleusterau betio yn cael eu darparu'n well trwy hysbysiadau defnydd achlysurol lle nad oes angen diffinio ffiniau'r terfyn.

Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi ei bod weithiau'n anodd diffinio union leoliad ardaloedd betio ar draciau. Nid oes angen dangos union leoliad lle darperir cyfleusterau betio ar gynlluniau trac, yn rhinwedd y ffaith y caniateir betio yn unrhyw le ar y safle ac oherwydd yr anawsterau sy'n gysylltiedig â nodi union leoliadau ar gyfer rhai mathau o drac. Dylai ymgeiswyr ddarparu digon o wybodaeth y gall y Cyngor hwn ei fodloni ei hun bod y cynllun yn nodi'r prif ardaloedd lle gallai betio ddigwydd. Ar gyfer cyrsiau rasio yn benodol, mae'n rhaid nodi unrhyw ardal fetio sy'n ddarostyngedig i'r "rheol bum gwaith" (a elwir yn gyffredin yn gylchoedd betio) ar y cynllun.

### 2.19 Ffeiriau Teithiol

Mae'r Cyngor hwn yn gyfrifol am benderfynu, lle mae peiriannau categori Ch a / neu beiriannau hapchwarae gwobr cyfle cyfartal heb hawlen i fod ar gael i'w defnyddio mewn ffeiriau teithiol, yna caiff y gofyniad statudol nad yw'r

cyfleusterau ar gyfer hapchwarae yn ddim mwy na difyrrwch ategol ei ddiwallu.

Bydd y Cyngor hefyd yn ystyried a yw'r ymgeisydd yn dod o fewn y diffiniad statudol o ffair deithiol sydd wedi'i chynnwys yn Adran 286 o Ddeddf Hapchwarae 2005.

Mae’r uchafswm statudol o 27 niwrnod ar gyfer y tir sy'n cael ei ddefnyddio fel ffair, bob blwyddyn galendr, a'i fod yn berthnasol i'r darn o dir y cynhelir y ffeiriau arno, ni waeth ai'r un ffeiriau teithiol neu wahanol ffeiriau teithiol sy'n defnyddio'r tir. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda'i awdurdodau cyfagos i sicrhau bod tir, sy'n croesi’n ffiniau, yn cael ei fonitro fel nad eir y tu hwnt i'r terfynau statudol.

### 2.20 Datganiadau Dros Dro

Efallai y bydd datblygwyr am wneud cais i'r Cyngor hwn am ddatganiadau dros dro cyn ymrwymo i gontract i brynu neu brydlesu eiddo neu dir i farnu a yw'n werth datblygu datblygiad yng ngoleuni'r angen i gael trwydded safle. Nid oes angen i'r ymgeisydd feddu ar drwydded weithredu er mwyn gwneud cais am ddatganiad dros dro.

Mae adran 204 o'r Ddeddf Hapchwarae yn caniatáu i berson wneud cais i'r Cyngor am ddatganiad dros dro mewn perthynas â safle ei fod ef neu ei bod hi:

- yn disgwyl iddo gael ei adeiladu;
- yn disgwyl iddo gael ei newid; neu
- yn disgwyl ennill hawl i feddiannu.

Mae'r broses ar gyfer ystyried cais am ddatganiad dros dro yr un fath â'r broses ar gyfer cais am drwydded safle. Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd roi rhybudd o'r cais yn yr un modd â gwneud cais am drwydded safle. Gall awdurdodau cyfrifol a phartïon â diddordeb wneud sylwadau ac mae hawliau apelio.

Mewn cyferbyniad â'r cais am drwydded safle, nid oes rhaid i'r ymgeisydd ddal trwydded neu fod wedi gwneud cais am drwydded weithredu gan y Comisiwn Hapchwarae (ac eithrio yn achos trac) ac nid oes rhaid iddynt fod â hawl i feddiannu'r adeilad mewn perthynas y gwneir eu cais dros dro mewn perthynas ag ef.

Yna gall deiliad datganiad dros dro wneud cais am drwydded safle unwaith y bydd yr adeilad wedi'i adeiladu, ei newid neu ei gaffael. Bydd y Cyngor yn cael ei gyfyngu yn y materion y gall eu hystyried wrth benderfynu ar y cais am drwydded safle, ac o ran sylwadau am geisiadau trwydded safle sy'n dilyn rhoi datganiad dros dro, ni ellir ystyried unrhyw sylwadau pellach gan awdurdodau perthnasol na phartïon â buddiant, oni bai:

- eu bod yn ymwneud â materion na allent fod wedi cael eu diwallu ar gam y datganiad dros dro; neu
- eu bod yn adlewyrchu newid yn amgylchiadau'r ymgeisydd.

Yn ychwanegol, gallai'r Cyngor wrthod y drwydded safle (neu ganiatáu'r drwydded safle ar delerau gwahanol i'r rhai a atodir i'r datganiad dros dro yn unig drwy gyfeirio at faterion:

- na allent fod wedi cael eu codi gan wrthwynebwyr yn y cam datganiad dros dro;
- sydd ym marn y Cyngor yn adlewyrchu newid yn amgylchiadau'r gweithredwr; neu
- lle mae'r safle heb gael ei adeiladu yn unol â'r cynllun a gyflwynwyd gyda'r cais. Mae'n rhaid i hwn fod yn newid sylweddol i'r cynllun ac mae'r Cyngor yn nodi y gall drafod unrhyw bryderon sydd ganddo gyda'r ymgeisydd cyn gwneud penderfyniad.

# 3. Hawlenni/Hysbysiadau Defnydd Dros Dro neu Achlysurol

Mae'r mathau hyn o awdurdodiadau fel a ganlyn:

- Hawlenni Canolfannau Adloniant Teulu Didrwydded
- Hawlenni Rhoi Gwobrau
- Hawlenni Peiriannau Hapchwarae mewn Safleoedd Trwyddedig
- Hawlenni Hapchwarae mewn Clybiau
- Hawlenni Peiriannau Hapchwarae mewn Clybiau
- Hysbysiadau Defnydd Dros Dro (HDDDau)
- Hysbysiadau Defnydd Achlysurol (HDAau)

Mae tabl sy'n nodi hawl peiriannau hapchwarae ynghlwm yn Atodiad Ch.

## 3.1 Hawlenni Peiriannau Hapchwarae Canolfannau Adloniant Teulu Didrwydded

Dim ond safleoedd a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer sicrhau bod peiriannau hapchwarae ar gael all gynnal Canolfan Adloniant Teulu Heb gael ei Thrwyddedu. O ganlyniad, yn gyffredinol ni chaniateir i safle o'r fath gyfateb i ganolfan siopa gyfan, maes awyr, gorsaf wasanaeth traffordd neu debyg. Yn nodweddiadol, bydd y peiriannau mewn man caeedig dynodedig ac wedi'u diffinio'n glir wrth wneud cais i'r Cyngor.

Pan nad oes gan adeilad drwydded Safle ond ei fod yn dymuno darparu peiriannau hapchwarae categori Ch, gall wneud cais i'r Cyngor am y drwydded hon.

Dylid nodi bod yn rhaid i'r ymgeisydd ddangos y bydd y safle yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer sicrhau bod peiriannau hapchwarae ar gael i'w defnyddio ac, felly, y byddai'n eithrio unrhyw safle a ddefnyddir yn bennaf at unrhyw ddibenion eraill, e.e. ffreuturau, siopau tecawê bwyd cyflym, canolfannau hamdden, garejys a gorsafoedd llenwi petrol, swyddfeydd tacsi.

Dim ond os yw'r Cyngor yn fodlon y bydd y safle yn cael ei ddefnyddio fel Canolfan Adloniant Teulu didrwydded ac yr ymgynghorwyd â Phrif Swyddog yr Heddlu ar y cais y gellir caniatáu cais am hawlen.

Bydd y Cyngor yn disgwyl i'r ymgeisydd ddangos bod polisïau a gweithdrefnau ar waith i amddiffyn plant rhag niwed. Nid yw niwed yn y cyd-destun hwn yn gyfyngedig i niwed o hapchwarae ond mae'n cynnwys ystyriaethau amddiffyn plant ehangach. Bydd effeithlonrwydd polisïau a gweithdrefnau o'r fath yn cael eu hystyried yn ôl eu rhinweddau. Fodd bynnag, gallant gynnwys mesurau / hyfforddiant priodol ar gyfer staff o ran amheuaeth bod plant ysgol ar driwantiaeth yn yr adeilad, mesurau / hyfforddiant yn ymwneud â sut y byddai staff yn delio â phlant ifanc iawn heb oruchwyliaeth yn y safle, neu blant yn achosi problemau canfyddedig ar / o amgylch y safle.

Bydd y Cyngor hwn hefyd yn disgwyl, yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Hapchwarae, y bydd ymgeiswyr yn dangos: -

- Dealltwriaeth lawn o fwyafswm arian betio a gwobrau'r hapchwarae gaiff ei ganiatáu mewn Canolfannau Adloniant Teulu Didrwydded;
- Nad oes gan yr ymgeisydd unrhyw euogfarn berthnasol (y rheini a amlinellir yn Atodlen 7 y Ddeddf);
- Bod staff wedi'u hyfforddi i gael dealltwriaeth lawn o fwyafswm yr arian betio a'r gwobrau.

Dylid nodi na all y Cyngor atodi unrhyw fath o amodau i'r hawlen hon.

### 3.2 (Alcohol) Hawlenni Peiriannau Hapchwarae Safleoedd Trwyddedig

Mae darpariaeth yn y Ddeddf i safle sydd â thrwydded i werthu alcohol i'w yfed yn yr adeilad, i gael 2 beiriant hapchwarae yn awtomatig, o gategorïau C a / neu Ch. Nid oes ond angen i'r adeilad hysbysu'r awdurdod trwyddedu. Gall y Cyngor ddileu'r awdurdodiad awtomatig mewn perthynas ag unrhyw safle penodol os:

- Nad yw darpariaeth y peiriannau yn rhesymol gyson â dilyn yr amcanion trwyddedu;
- Oes hapchwarae wedi digwydd ar y safle sy'n torri amod Adran 282 o'r Ddeddf Hapchwarae (h.y. mae rhybudd ysgrifenedig wedi'i ddarparu i'r awdurdod trwyddedu, bod ffi wedi'i darparu ac y bu cydymffurfiaeth ag unrhyw god ymarfer perthnasol a gyflwynwyd gan y Comisiwn Hapchwarae ynghylch lleoliad a gweithredu'r peiriant;
- Defnyddir y safle yn bennaf ar gyfer hapchwarae; neu
- Cyflawnwyd trosedd ar y safle dan y Ddeddf Hapchwarae.

Os yw safle yn dymuno cael mwy na 2 beiriant, yna mae’n rhaid cyflwyno cais am hawlen ac mae’n rhaid i'r Cyngor ystyried y cais hwnnw yn seiliedig ar yr amcanion trwyddedu, unrhyw ganllawiau a chodau ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiwn Hapchwarae a “materion y tybia’r Cyngor sydd yn berthnasol”. Mae'r Cyngor o'r farn y bydd “materion o'r fath” yn cael eu penderfynu fesul achos ond yn gyffredinol bydd ystyriaeth i'r angen i amddiffyn plant a phobl agored i niwed rhag cael eu niweidio neu gael eu hecsbloetio gan hapchwarae a bydd yn disgwyl i'r ymgeisydd fodloni'r Cyngor fod yno fesurau digonol i sicrhau nad oes gan bobl dan 18 oed fynediad at y peiriannau hapchwarae i oedolion yn unig. Gall mesurau a fydd yn bodloni'r Cyngor na fydd mynediad all gynnwys y peiriannau oedolion yng ngolwg y bar, neu yng ngolwg staff a fydd yn monitro nad yw personau o dan 18 oed yn defnyddio'r peiriannau. Gall hysbysiadau ac arwyddion hefyd fod o gymorth. O ran amddiffyn pobl sy'n agored i niwed, efallai y bydd ymgeiswyr am ystyried darparu taflenni gwybodaeth / rhifau llinell gymorth ar gyfer sefydliadau fel GamCare.

Cydnabyddir y gall rhai safleoedd trwyddedig sy’n gwerthu alcohol wneud cais am drwydded safle ar gyfer eu hardaloedd heb drwydded alcohol. Mae'n debygol y byddai angen gwneud cais am unrhyw gais o'r fath, a delio ag ef fel trwydded safle Canolfan Hapchwarae i Oedolion.

Dylid nodi y gall y Cyngor benderfynu caniatáu'r cais gyda nifer llai o beiriannau a / neu gategori gwahanol o beiriannau na'r hyn y gwnaed cais amdano. Ni ellir atodi amodau (ac eithrio'r rhain).

Dylid nodi hefyd bod yn rhaid i ddeiliad trwydded gydymffurfio ag unrhyw God Ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiwn Hapchwarae ynghylch lleoliad a gweithrediad y peiriant.

### 3.3 Hawlenni Hapchwarae Gwobrau

Mae gan y Cyngor yr hawl yn unol â’r ‘Datganiad Egwyddorion’ hwn i nodi materion y mae’r awdurdod hwn yn bwriadu eu hystyried wrth bennu addasrwydd yr ymgeisydd am hawlen.

Mae hefyd yn nodi y dylai'r ymgeisydd nodi'r mathau o hapchwarae y mae'n bwriadu eu cynnig ac y dylai'r ymgeisydd allu dangos: -

- Eu bod yn deall terfynau’r arian betio a’r gwobrau a amlinellir yn y Rheoliadau;
- A bod yr hapchwarae a gynigir o fewn y gyfraith;
- Bod polisïau clir sy’n amlinellu’r camau i’w cymryd i amddiffyn plant rhag niwed.

Wrth wneud ei benderfyniad ar gais am y drwydded hon nid oes angen i'r awdurdod trwyddedu roi sylw i'r amcanion trwyddedu ond mae’n rhaid iddo roi sylw i unrhyw ganllawiau'r Comisiwn Hapchwarae.

Dylid nodi bod amodau yn Neddf Hapchwarae 2005 y mae'n rhaid i ddeiliad y drwydded gydymffurfio â hwy, ond na all yr awdurdod trwyddedu atodi amodau. Yr amodau yn y Ddeddf yw: -

- Mae’n rhaid cydymffurfio â’r terfynau ar ffioedd cyfranogi, fel yr amlinellir yn y rheoliadau;
- Mae’n rhaid neilltuo pob cyfle i gyfranogi yn yr hapchwarae ar y safle y mae’r hapchwarae yn digwydd arno ac ar un diwrnod, mae’n rhaid i’r hapchwarae ddigwydd a gorffen ar yr un diwrnod y mae’r cyfleoedd yn cael eu neilltuo, ac mae’n rhaid gwneud canlyniadau’r gêm yn gyhoeddus ar y safle ar y diwrnod y caiff ei chwarae;
- Mae’n rhaid i’r wobr y mae’r gêm yn cael ei chwarae amdani beidio â bod yn fwy na’r swm a amlinellir yn y rheoliadau (os yw’n wobr ariannol), neu’r gwerth a ragnodir (os nad yw’n wobr ariannol); ac
- Mae’n rhaid i gyfranogi yn yr hapchwarae beidio â rhoi hawl i’r chwaraewr gymryd rhan mewn unrhyw hapchwarae arall.

**Hawlenni Hapchwarae mewn Clybiau a Pheiriannau Hapchwarae mewn Clybiau**

Gallai Clybiau Aelodau a Sefydliadau Lles Glowyr (ond nid Clybiau Masnachol) wneud cais am Drwydded Hapchwarae Clwb neu Drwydded Peiriannau Hapchwarae mewn Clwb. Bydd y Drwydded Hapchwarae mewn Clwb yn galluogi'r safle i ddarparu peiriannau hapchwarae (3 pheiriant o gategorïau B, C neu Ch), hapchwarae cyfle cyfartal a gemau siawns. Gall Clybiau Aelodau a Chlybiau Glowyr a Chlybiau Masnachol yn ogystal wneud cais am Drwydded Peiriant mewn Clwb. Bydd Trwydded Peiriant Hapchwarae mewn Clwb yn galluogi'r safle i ddarparu peiriannau hapchwarae (3 pheiriant o gategorïau B, C neu Ch). Ni chaiff Clybiau Masnachol leoli peiriannau hapchwarae categori B3A sy'n cynnig gemau loteri yn eu clwb.

Mae’n rhaid i'r Cyngor fodloni ei hun bod y clwb yn cwrdd â gofynion y Ddeddf i gael trwydded hapchwarae mewn clwb. Wrth wneud hynny bydd yn ystyried nifer o faterion fel yr amlinellir yng Nghanllawiau'r Comisiwn Hapchwarae. Mae'r rhain yn cynnwys cyfansoddiad y clwb, amlder hapchwarae, a sicrhau bod mwy na 25 aelod.

Mae’n rhaid i'r clwb gael ei gynnal yn “gyfan gwbl neu'n bennaf” at ddibenion heblaw hapchwarae, oni chaniateir i'r hapchwarae gael ei ganiatáu gan reoliadau ar wahân. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud rheoliadau ac mae'r rhain yn ymwneud â chlybiau Bridge a Chwist.

Gallai’r Cyngor wrthod cais yn unig ar y sail:

(a) Nad yw'r ymgeisydd yn cyflawni gofynion llawn ar gyfer clwb aelodau neu glwb masnachol neu sefydliad lles glowyr ac felly nad yw'n gymwys i dderbyn y math o hawlen y mae wedi gwneud cais amdani;
(b) Y defnyddir safle'r ymgeisydd yn gyfan gwbl neu yn bennaf gan blant a/neu bersonau ifanc;
(c) Y cyflawnwyd trosedd dan y Ddeddf neu dorri hawlen gan yr ymgeisydd tra oedd yn darparu cyfleusterau hapchwarae;
(d) I hawlen a ddaliwyd gan yr ymgeisydd gael ei chanslo yn y deng mlynedd flaenorol; neu
(e) Bod gwrthwynebiad wedi cael ei gyflwyno gan y Comisiwn neu'r heddlu.

Mae yna hefyd weithdrefn 'llwybr cyflym' ar gael o dan y Ddeddf ar gyfer safle sydd â Thystysgrif Safle Clwb o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 (Atodlen 12 paragraff 10). Ni all clybiau masnachol feddu ar Dystysgrifau Safle Clwb o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 ac felly ni allant ddefnyddio gweithdrefn y llwybr cyflym. Fel y dywed Canllawiau'r Comisiwn Hapchwarae ar gyfer awdurdodau lleol: "O dan weithdrefn y llwybr cyflym nid oes cyfle i wrthwynebiadau gael eu gwneud gan y Comisiwn na'r heddlu, ac mae'r seiliau y gall awdurdod wrthod caniatâd yn cael eu lleihau" a'r "Seiliau y gellir gwrthod cais o dan y weithdrefn yw:

(a) Y sefydlir y clwb yn bennaf ar gyfer hapchwarae, ac eithrio hapchwarae a ragnodir dan atodlen 12;
(b) Yn ychwanegol at yr hapchwarae a ragnodir, mae'r ymgeisydd yn darparu hapchwarae ar gyfer math arall o hapchwarae; neu
(c) Y canslwyd o fewn y deng mlynedd ddiwethaf hawlen hapchwarae clwb neu hawlen peiriant hapchwarae a gyflwynwyd i'r ymgeisydd."

Mae yna amodau statudol ar drwyddedau hapchwarae clwb nad oes unrhyw blentyn yn defnyddio peiriant categori B neu C yn yr adeilad a bod y deiliad yn cydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth berthnasol o god ymarfer ynghylch y lleoliad a'r gweithrediad.

### 3.4 Hysbysiadau am Ddefnydd Dros Dro

Mae Hysbysiadau Defnydd Dros Dro yn caniatáu defnyddio safle ar gyfer hapchwarae lle nad oes trwydded safle ond lle mae gweithredwr hapchwarae yn dymuno defnyddio'r safle dros dro ar gyfer darparu cyfleusterau ar gyfer hapchwarae. Byddai safle a allai fod yn addas ar gyfer Hysbysiad Defnydd Dros Dro, yn ôl y Comisiwn Hapchwarae, yn cynnwys gwestai, canolfannau cynadledda a lleoliadau chwaraeon. Dim ond i berson neu gwmni sydd â thrwydded weithredu berthnasol y gall y Cyngor roi Hysbysiad Defnydd Dros Dro, h.y. trwydded gweithredu casino nad yw o bell. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i benderfynu pa fath o hapchwarae y gellir ei awdurdodi gan Hysbysiadau Defnydd Dros Dro. Mae Rheoliadau Deddf Hapchwarae 2005 (Hysbysiadau Defnydd Dros Dro 2007) yn nodi mai dim ond i ganiatáu darparu cyfleusterau neu hapchwarae cyfle cyfartal y gellir defnyddio

Hysbysiadau Defnydd Dros Dro, lle bwriedir i'r hapchwarae gynhyrchu un enillydd, sydd yn ymarferol yn golygu twrnameintiau pocer. Mae yna nifer o derfynau statudol o ran hysbysiadau defnydd dros dro. Trafodir ystyr "safle" yn rhan 8 o'r Ddeddf yng Nghanllawiau'r Comisiwn Hapchwarae. Yn yr un modd â "safle", bydd y diffiniad o "set o safleoedd" yn gwestiwn o ffaith o dan amgylchiadau penodol pob hysbysiad a roddir. Yn y Ddeddf diffinnir "safle" fel un sy'n cynnwys "unrhyw le". Wrth ystyried a yw lle yn dod o fewn y diffiniad o "set o safleoedd", mae angen i'r Cyngor edrych, ymysg pethau eraill, ar berchnogaeth / meddiannaeth a rheolaeth y safle.

Mae'r Cyngor hwn yn disgwyl gwrthwynebu hysbysiadau lle mae'n ymddangos mai eu heffaith fyddai caniatáu hapchwarae rheolaidd mewn man y gellid ei ddisgrifio fel un set o adeiladau; fel yr argymhellwyd gan Ganllawiau'r Comisiwn Hapchwarae i awdurdodau trwyddedu.

### 3.5 Hysbysiadau am Ddefnydd Achlysurol

Pan fydd betio ar drac am 8 niwrnod neu lai mewn blwyddyn galendr, gellir caniatáu betio trwy hysbysiad defnydd achlysurol (HDA) heb fod angen trwydded safle lawn. Y bwriad y tu ôl i HDAau yw caniatáu i weithredwyr fetio trwyddedig gyda chaniatâd priodol gan y Comisiwn, ddefnyddio traciau am gyfnodau byr ar gyfer cynnal betio, lle mae'r digwyddiad y mae'r betio i ddigwydd ynddo o natur dros dro anaml, (mae'r HDA yn hepgor yr angen am drwydded safle betio ar gyfer y trac o dan yr amgylchiadau hyn).

Gellir cynnal nosweithiau rasio codi arian anfasnachol fel digwyddiadau betio mewn lleoliadau chwaraeon o dan awdurdod HDA, p'un a yw'r digwyddiad chwaraeon y cymerir y betiau arno yn y lleoliad hwnnw ai peidio. Hefyd nid oes angen i'r digwyddiad chwaraeon mae'r betiau'n cael eu cymryd neu a fydd yn cael eu cymryd ddigwydd ar yr un pryd â'r betio o dan yr HDA.

Ychydig iawn o ddisgresiwn sydd gan y Cyngor o ran yr hysbysiadau hyn ar wahân i sicrhau nad eir y tu hwnt i'r terfyn statudol o 8 niwrnod mewn blwyddyn galendr. Er hynny, bydd y Cyngor yn ystyried y diffiniad o 'drac' ac a ganiateir i'r ymgeisydd ddefnyddio'r hysbysiad ei hun.

## 4. Loterïau Cymdeithasau Bychain

Mae Deddf Hapchwarae 2005 yn nodi diffiniad o loteri, y manylir arno isod, ac yn nodi bod hyrwyddo neu hwyluso loteri yn anghyfreithlon, oni bai ei fod yn dod o fewn un o ddau gategori loteri a ganiateir, sef:

- loterïau trwyddedig - loterïau cymdeithasau mawr yw'r rhain a loterïau a redir er budd awdurdodau lleol gaiff eu rheoleiddio gan y Comisiwn ac sydd angen trwyddedau gweithredu;

- loterïau eithriedig - mae pedwar math o loteri eithriedig a ganiateir yn benodol dan Atodlen 11 o'r Ddeddf, gan gynnwys y loteri cymdeithasau bychain.

Loteri yw unrhyw drefniant sy'n bodloni'r holl feini prawf a gynhwysir yn y disgrifiad statudol o naill ai loteri syml neu loteri gymhleth, yn unol ag adran 14 o'r Ddeddf.

‘Cymdeithas’ yw’r gymdeithas, neu unrhyw gangen ar wahân o gymdeithas o’r fath, y mae loteri i’w hyrwyddo ar ei rhan, ac sydd wedi’i sefydlu fel sefydliad anfasnachol. Mae adran 19 o'r Ddeddf yn diffinio cymdeithas fel y cyfryw os yw wedi'i sefydlu a'i chynnal:

- at ddibenion elusennol, fel y’i diffinnir yn adran 2 o Ddeddf Elusennau 2006;

- at ddibenion galluogi cyfranogiad mewn, neu o gefnogi chwaraeon, athletau neu weithgaredd diwylliannol;

- at unrhyw ddibenion anfasnachol eraill ac eithrio elwa preifat.

Mae’n rhaid bod y gymdeithas wedi'i sefydlu at un o'r dibenion a ganiateir fel y nodir yn adran 19 o'r Ddeddf, a bod yn rhaid neilltuo enillion unrhyw loteri at y dibenion hynny. Ni chaniateir sefydlu cymdeithas a'i hunig bwrpas yw hwyluso loterïau.

Mae gan awdurdodau lleol hawl i weithredu eu loterïau eu hunain, ond dim ond os ydynt wedi'u trwyddedu gan y Comisiwn Hapchwarae y gallant wneud hynny. Mae’n rhaid i awdurdodau lleol ymrwymo o leiaf 20% o'r enillion o loterïau o'r fath at ddiben y mae ganddynt bŵer i fynd i wariant ar ei gyfer, ac mae’n rhaid iddynt hefyd gadw at y darpariaethau perthnasol eraill yn y Ddeddf. Efallai y bydd angen iddynt hefyd feddu ar drwydded gweithredu hapchwarae o bell, os ydynt yn dymuno gwerthu tocynnau loteri trwy ddulliau electronig neu ddulliau technolegol anghysbell eraill megis dros y ffôn, e-bost neu trwy'r rhyngrwyd.

Mae’n haid i geisiadau am gofrestriadau loteri cymdeithasau bychain fod ar y ffurf a ragnodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac mae’n rhaid talu ffi gofrestru a chopi o'r telerau a’r amodau a'r cyfansoddiad i brofi eu bod yn gymdeithas anfasnachol. Mae paragraffau 47 a 48 o Atodlen 11 o'r Ddeddf yn nodi'r seiliau i awdurdodau trwyddedu wrthod cais i gofrestru loteri cymdeithasau bychain.

Bydd y Cyngor yn mabwysiadu dull sy’n seiliedig ar risg tuag at ei gyfrifoldebau gorfodi ar gyfer loterïau cymdeithasau bychain. Mae'r Cyngor o'r farn y gallai'r rhestr ganlynol, er nad yw'n gynhwysfawr, effeithio ar statws risg y gweithredwr:

- cyflwyno enillion yn hwyr (mae’n rhaid cyflwyno enillion heb fod yn hwyrach na thri mis wedi’r dyddiad y tynnwyd y loteri)
- cyflwyno enillion anghyflawn neu anghywir
- torri’r terfynau ar gyfer loterïau cymdeithasau bychain.

Caniateir hapchwarae anfasnachol os yw'n digwydd mewn digwyddiad anfasnachol, naill ai fel gweithgaredd atodol neu fel prif weithgaredd yn y

digwyddiad. Mae digwyddiadau yn anfasnachol os nad oes unrhyw ran o'r enillion er elw neu elw preifat. Gall elw digwyddiadau o'r fath fod o fudd i un neu fwy o unigolion os yw'r gweithgaredd wedi'i drefnu:

- gan, neu ar ran, elusen neu at ddibenion elusennol;
- i alluogi cyfranogi mewn, neu gefnogi chwaraeon, athletau neu weithgareddau diwylliannol.

Dylai elusennau neu grwpiau cymunedol gysylltu â'r Cyngor drwy gyfrwng e-bost i licensing@monmouthshire.gov.uk neu drwy lythyr yn yr Adran Drwyddedu, Cyngor Sir Fynwy, Canolfan Addysg Gymunedol Y Fenni, Hen Heol Henffordd, Y Fenni NP7 6EL i gofrestru'r loteri ac i ddarparu prawf bod y casgliad at ddibenion elusennol, i gefnogi gweithgareddau chwaraeon, athletaidd neu ddiwylliannol.

# 5. Gwneud Penderfyniadau

## 5.1 Gweinyddu, Ymarfer a Dirprwyo Swyddogaethau

Gall pwerau a dyletswyddau'r Cyngor o dan y Ddeddf gael eu cyflawni gan y Pwyllgor Trwyddedu, gan Is-bwyllgor neu gan un neu fwy o swyddogion sy'n gweithredu o dan awdurdod dirprwyedig.

Ystyrir y bydd llawer o'r swyddogaethau yn weinyddol eu natur i raddau helaeth heb unrhyw feysydd dadleuol canfyddedig. Er budd effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd, swyddogion fydd yn cyflawni'r rhain ar y cyfan.

Mae'r amserlen ganlynol yn nodi'r dirprwyo argymelledig o swyddogaethau a phenderfyniadau trwy ganllawiau. Serch hynny, gall y Cyngor gyfeirio unrhyw fater at y Pwyllgor neu'r Is-bwyllgor Trwyddedu.

Mae'r atodlen dirprwyo swyddogaethau trwyddedu ynghlwm yn Atodiad B.

## 5.2 Gweithdrefn Apelio

Nodir yr hawliadau i apelio gan bartïon a dramgwyddir gan benderfyniadau'r Cyngor yn Adrannau 206 i 209 o Ddeddf 2005. Mae'n rhaid apelio i'r Llys Ynadon ar gyfer yr ardal lle mae'r awdurdod trwyddedu, sydd wedi ystyried y cais, wedi'i leoli.

Mae'n rhaid cychwyn apêl trwy roi rhybudd o'r apêl gan yr apelydd i; Y Clerc i'r Ynadon, Llys Ynadon Gwent, Llysoedd y Gyfraith, Heol Faulkner, Casnewydd, NP20 4PR, o fewn cyfnod o 21 diwrnod, gan ddechrau gyda'r diwrnod yr hysbysodd y Cyngor yr apelydd o'r penderfyniad i apelio yn ei erbyn.

Wrth benderfynu ar apêl, gallai'r Llys:

- Wrthod yr apêl;
- Amnewid y penderfyniad yr apeliwyd yn ei erbyn ag unrhyw benderfyniad arall a allai fod wedi'i wneud gan yr awdurdod trwyddedu;
- Gyfeirio'r achos at yr awdurdod trwyddedu i wrthod yr apêl yn unol â chyfarwyddyd y Llys;
- Wneud gorchymyn ynghylch costau.

### 5.3 Rhoi Rhesymau dros Benderfyniadau

Gan ragweld apeliadau o'r fath, bydd y Cyngor yn rhoi rhesymau cynhwysfawr dros ei benderfyniadau. Bydd y Cyngor yn mynd i'r afael â'r graddau y mae penderfyniadau wedi'u gwneud mewn perthynas ag unrhyw godau ymarfer a chanllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae, yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu ac yn unol â'r Datganiad Polisi hwn.

### 5.4 Gweithredu Penderfyniad y Llys

Cyn gynted ag y bydd penderfyniad y Llys Ynadon wedi cael ei hysbysu i bob parti, ni fydd y Cyngor yn gohirio ei weithredu a chymerir camau angenrheidiol ar unwaith oni bai bod llys uwch yn gorchymyn atal achos o'r fath (er enghraifft, o ganlyniad i adolygiad barnwrol parhaus). Nid yw'r Ddeddf yn darparu ar gyfer unrhyw apêl arall yn erbyn dyfarniad y Llys Ynadon.

### 5.5 Cwynion yn erbyn Safleoedd Trwyddedig

Bydd y Cyngor yn ymchwilio i gwynion yn erbyn safleoedd trwyddedig mewn perthynas â materion yn ymwneud â'r amcanion trwyddedu y mae ganddo gyfrifoldeb amdanynt. Yn y lle cyntaf, anogir achwynwyr i godi'r gŵyn yn uniongyrchol gyda deiliad y drwydded neu'r busnes dan sylw i ofyn am ddatrysiad lleol.

Pan fydd parti â buddiant wedi gwneud naill ai sylw dilys ynghylch safle trwyddedig neu gais dilys am drwydded i gael ei hadolygu, gall y Cyngor drefnu cyfarfod cymodi i ddechrau mynd i'r afael â'r materion sy'n peri pryder ac egluro hynny.

Ni fydd y broses hon yn diystyru hawl unrhyw barti sydd â diddordeb i ofyn i'r Is-bwyllgor Trwyddedu a Hapchwarae ystyried eu gwrthwynebiadau dilys, nac i unrhyw ddeiliad trwydded wrthod cymryd rhan mewn cyfarfod cymodi.

Rhoddir ystyriaeth ddyledus i'r holl sylwadau perthnasol oni bai eu bod yn cyd-fynd â'r eithriadau yn 5.6 isod.

### 5.6 Adolygiadau

Gellir gwneud ceisiadau am adolygiad gan Bartïon â Diddordeb neu Awdurdodau â Chyfrifoldeb. Fodd bynnag, mater i'r Cyngor yw penderfynu a

yw'r adolygiad i'w gynnal yn seiliedig ar unrhyw godau ymarfer a chanllawiau perthnasol a gyhoeddir gan y Comisiwn Hapchwarae, sy'n rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu ac yn unol â'r Datganiad Polisi hwn.

Bydd y cais am yr adolygiad hefyd yn ddarostyngedig i'r Cyngor ystyried a yw'n wamal neu'n flinderus, neu a fydd yn achosi i'r Cyngor hwn newid / dirymu / atal y drwydded, neu a yw i raddau helaeth yr un fath o sylwadau neu geisiadau ag o'r blaen.

Gall y Cyngor hefyd gychwyn adolygiad o drwydded safle penodol, neu ddosbarth penodol o drwyddedau safle ar sail unrhyw reswm, sy'n briodol yn ei farn ef.

Ar ôl i'r Cyngor dderbyn cais dilys am adolygiad, gall awdurdodau â chyfrifoldeb a phartïon â diddordeb gyflwyno sylwadau yn ystod cyfnod o 28 niwrnod. Mae'r cyfnod hwn yn dechrau 7 niwrnod ar ôl i'r Cyngor dderbyn y cais, a fydd yn cyhoeddi hysbysiad o'r cais cyn pen 7 niwrnod o'i dderbyn.

Mae'n rhaid i'r Cyngor gynnal yr adolygiad cyn gynted â phosibl ar ôl i'r cyfnod o 28 niwrnod ar gyfer cyflwyno sylwadau fynd heibio.

Pwrpas yr adolygiad fydd penderfynu a ddylai'r Cyngor gymryd unrhyw gamau mewn perthynas â'r drwydded. Os gellir cyfiawnhau gweithredu, yr opsiynau sy'n agored i'r Cyngor yw: -

- ychwanegu, gwahardd neu ddiwygio amod trwydded a osodwyd gan y Cyngor;
- eithrio amod diofyn a osodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol (e.e. oriau agor) neu symud neu ddiwygio gwaharddiad o'r fath;
- atal y drwydded safle am gyfnod heb fod yn fwy na thri mis; a
- dirymu'r drwydded safle.

Wrth benderfynu pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd yn dilyn adolygiad, mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw i'r egwyddorion a nodir yn Adran 153 o'r Ddeddf, yn ogystal ag unrhyw sylwadau perthnasol.

Yn benodol, gall y Cyngor hefyd gychwyn adolygiad o drwydded safle ar y sail nad yw deiliad trwydded safle wedi darparu cyfleusterau ar gyfer hapchwarae yn yr adeilad. Mae hyn er mwyn atal pobl rhag gwneud cais am drwyddedau mewn modd hapfasnachol heb fwriadu eu defnyddio.

Ar ôl cwblhau'r adolygiad, mae'n rhaid i'r Cyngor, cyn gynted â phosibl, hysbysu ei benderfyniad:

- i ddeiliad y drwydded;
- i'r ymgeisydd ar gyfer adolygiad (os oes un);
- i'r Comisiwn;
- i unrhyw berson a wnaeth sylwadau;
- i brif swyddog yr heddlu neu'r prif gwnstabl; ac

- i Gomisiynydd Refeniw a Thollau Ei Mawrhydi.

# 6. Amodau Trwyddedu a Chodau Ymarfer 2020 (ATChY)

Mae Deddf Hapchwarae 2005 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Hapchwarae gyhoeddi un neu fwy o godau ymarfer ynghylch y modd y darperir cyfleusterau ar gyfer hapchwarae. Gellir cyfeirio'r codau at ddeiliaid trwyddedau gweithredu neu drwyddedau personol, neu unrhyw berson arall sy'n ymwneud â darparu cyfleusterau ar gyfer hapchwarae.

Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau trwyddedu ystyried, wrth arfer eu swyddogaethau, unrhyw god ymarfer perthnasol a gyhoeddir gan y Comisiwn o dan adran 24, yn yr achos hwn: -

- *Amodau trwydded a chodau ymarfer* y Comisiwn (ATChY), sy'n berthnasol ar gyfer deiliaid trwyddedau gweithredu neu bersonol y Comisiwn Hapchwarae;
- Codau eraill – y rhain yw cod ymarfer y Comisiwn ar gyfer hapchwarae cyfle cyfartal a'i god ymarfer ar gyfer peiriannau hapchwarae mewn clybiau a safleoedd â thrwydded alcohol.

Mae'r ATChY yn cynnwys dau fath o ddarpariaeth codau:

**Darpariaethau codau cyfrifoldeb cymdeithasol**

Darpariaethau yw'r rhain sy'n disgrifio trefniadau y dylid eu gwneud gan bersonau sy'n darparu cyfleusterau ar gyfer hapchwarae at ddiben:-

(a) sicrhau bod hapchwarae yn cael ei weithredu mewn ffordd deg ac agored;
(b) amddiffyn plant a phersonau eraill sy'n agored i niwed rhag cael eu niweidio a'u hecsbloetio gan hapchwarae; a
(c) gwneud help ar gael i bersonau sy'n cael neu a allai gael eu heffeithio gan broblemau sy'n gysylltiedig â hapchwarae.

Mae cydymffurfio â'r rhain yn amod trwyddedau gweithredwr; felly gallai unrhyw dorri arnynt gan weithredwr trwyddedig arwain y Comisiwn i adolygu trwydded y gweithredwr gyda'r bwriad o atal, dirymu neu orfodi cosb ariannol a byddai hefyd yn golygu bod y gweithredwr mewn perygl o gael ei erlyn; mae'r darpariaethau hyn mewn blychau tywyll yng ngweddill y ddogfen hon.

**Darpariaethau cod cyffredin**

Nid oes gan y rhain statws amodau trwydded yn achos gweithredwyr trwyddedig, ond maent yn nodi arfer dda; mae'r darpariaethau cod hyn yn y blychau heb eu tywyllu yn y ddogfen hon.
Mae codau ymarfer yn dderbyniadwy mewn tystiolaeth mewn achos troseddol neu sifil ac mae'n rhaid eu hystyried mewn unrhyw achos lle mae'r llys neu'r

tribiwnlys yn credu eu bod yn berthnasol, a chan y Comisiwn wrth arfer ei swyddogaethau; gall y Comisiwn ystyried unrhyw wyro oddi wrth ddarpariaethau cod gan weithredwr, er enghraifft wrth adolygu trwydded (ond ni allai arwain at orfodi cosb ariannol).

Fodd bynnag, mae'r Comisiwn wedi ei gwneud yn glir y gall gweithredwyr trwyddedig fabwysiadu dulliau amgen i'r rhai a nodwyd os ydynt wedi ystyried y ddarpariaeth yn weithredol ac yn gallu dangos bod dull amgen yn rhesymol o dan yr amgylchiadau penodol; neu y byddai cymryd dull arall yn gweithredu mewn modd yr un mor effeithiol. Nid oes gan y rhain statws amodau trwydded yn achos gweithredwyr trwyddedig, ond maent yn nodi arfer da; mae'r darpariaethau cod hyn yn y blychau heb eu gorchuddio yn y ddogfen hon. Mae codau ymarfer yn dderbyniadwy mewn tystiolaeth mewn achos troseddol neu sifil ac mae'n rhaid eu hystyried mewn unrhyw achos lle mae'r llys neu'r tribiwnlys yn credu eu bod yn berthnasol, a gan y Comisiwn wrth arfer ei swyddogaethau; gall y Comisiwn ystyried unrhyw wyro oddi wrth ddarpariaethau cod gan weithredwr, er enghraifft wrth adolygu trwydded (ond ni allai arwain at orfodi cosb ariannol).

Fodd bynnag, mae'r Comisiwn wedi ei gwneud yn glir y gall gweithredwyr trwyddedig fabwysiadu dulliau amgen i'r rhai a nodwyd os ydynt wedi ystyried y ddarpariaeth yn weithredol ac yn gallu dangos bod dull amgen yn rhesymol o dan yr amgylchiadau penodol; neu y byddai cymryd dull arall yn gweithredu mewn modd yr un mor effeithiol.

**Asesiadau Risg - Safle**

Mae'r ATChY yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl drwyddedeion presennol sy'n darparu hapchwarae yn eu safleoedd asesu'r risgiau lleol i'r amcanion trwyddedu a bod â pholisïau, gweithdrefnau a mesurau rheoli i leihau'r risgiau hynny. Mae'n rhaid i drwyddedeion ystyried unrhyw faterion perthnasol a nodwyd yn Natganiad Polisi awdurdodau trwyddedu (hapchwarae) wrth wneud eu hasesiadau risg.

Dylai trwyddedai hefyd gynnal asesiad risg lleol neu ei ddiweddaru, wrth wneud cais: -

- Am drwydded safle newydd;
- Wrth wneud cais am amrywio trwydded safle bresennol;
- Gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau lleol sylweddol yn yr ardal leol;
- Pan mae newidiadau sylweddol o fewn eu safle a allai effeithio ar yr asesiad risg lleol.

Mae'n ofynnol i weithredwyr sicrhau bod yr asesiad risg ar gael i awdurdodau trwyddedu pan gyflwynir cais a dylid cadw copi yn y safle neu fel arall ar gais, a bydd hyn yn rhan o drefn arolygu'r Cyngor neu pan fydd yn ymchwilio i gwynion.

Mae'r cod yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor nodi materion y maent yn disgwyl i'r gweithredwr eu hystyried yn yr asesiad risg yn ei ddatganiad polisi ac mae'r cyngor hwn yn disgwyl i'r gweithredwyr ystyried y materion canlynol wrth wneud eu hasesiad risg.

- Gwybodaeth a ddelir gan y trwyddedai ynghylch hunan-waharddiadau ac achosion o hapchwarae dan oedran;
- Tueddiadau hapchwarae a allai adlewyrchu taliadau budd-dal;
- Trefniant ar gyfer cyfnewid gwybodaeth yn lleol ynghylch hunan-waharddiadau a thueddiadau hapchwarae;
- Lleoliad trefol fel agosrwydd at ysgolion, amgylchedd masnachol, ffactorau sy’n effeithio ar nifer yr ymwelwyr;
- Amrywiaeth o gyfleusterau yn agos at y safle trwyddedig megis mannau hapchwarae eraill, banciau, swyddfeydd post, lluniaeth a mathau o adloniant;
- Problemau hysbys yn yr ardal megis problemau sy’n codi gan yfwyr stryd, ieuenctid yn cymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol, gweithgareddau delio mewn cyffuriau, ac ati.

**Safle Betio ar y Trac** – Mae'r Comisiwn Hapchwarae yn nodi o fewn ei god ATChY ei bod yn ofynnol i Weithredwyr wneud asesiad risg. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i Safleoedd Betio ar y Trac geisio Trwydded Gweithredwr gyda'r Comisiwn Hapchwarae ac o ganlyniad nid yw'n ofynnol iddynt gynnal asesiad risg. Fodd bynnag, er budd amcanion Deddf Hapchwarae 2003, sef i) atal hapchwarae rhag bod yn ffynhonnell trosedd neu anhrefn, bod yn gysylltiedig â throsedd neu anhrefn neu gael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd; ii) sicrhau bod hapchwarae'n cael ei gynnal mewn ffordd deg ac agored; iii) amddiffyn plant a phobl eraill sy’n agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio gan hapchwarae, byddai'r Cyngor hwn yn disgwyl i Safle betio ar y Trac gynnal asesiad risg ar gyfer eu safle.

Mae'r cyngor yn disgwyl i'r materion canlynol gael eu hystyried gan weithredwyr wrth wneud eu hasesiad risg.

Materion yn ymwneud â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys;

- Sefydliadau, llefydd neu ardaloedd lle disgwylid presenoldeb plant a phobl ifanc megis ysgolion, clybiau ieuenctid, parciau, meysydd chwarae a llefydd adloniant megis alïau bowlio, sinemâu ac ati;
- Unrhyw safle lle mae plant yn ymgasglu gan gynnwys arosfannau bws, caffis, siopau, ac unrhyw le arall lle denir plant;
- Ardaloedd sy’n dueddol o gael problemau o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys gweithgareddau megis graffiti/tagio, yfed dan oedran, ac ati;
- Digwyddiadau wedi’u cofnodi o geisio hapchwarae dan oedran.

Materion yn ymwneud ag oedolion agored i niwed, gan gynnwys;

- Gwybodaeth a ddelir gan y trwyddedai ynghylch hunan-waharddiadau ac achosion o hapchwarae dan oedran;
- Tueddiadau hapchwarae a allai adlewyrchu diwrnodau ar gyfer taliadau ariannol megis diwrnodau talu cyflog neu fudd-daliadau;
- Trefniant ar gyfer cyfnewid gwybodaeth yn lleol ynghylch hunan-waharddiadau a thueddiadau hapchwarae;
- Agosrwydd safleoedd a allai gael eu mynychu gan bobl agored i niwed megis ysbytai, cartrefi gofal preswyl, cyfleusterau meddygol, meddygfeydd, swyddfeydd adran dai'r cyngor, clinigau dibyniaeth neu ganolfannau cymorth, llefydd lle gallai pobl yn ddibynnol ar alcohol neu gyffuriau ymgynnull, ac ati. Bydd ystyriaeth i leoliad safle trwyddedig alcohol hefyd yn ystyriaeth allweddol ar gyfer ceisiadau trwydded hapchwarae.

Gallai materion eraill a allai gael eu hystyried gynnwys;

- materion ffydd, gan gynnwys pob enwad crefyddol neu ffydd gan gynnwys agosrwydd at eglwysi, mosgau, temlau neu unrhyw addoldy arall;
- cyfansoddiad economaidd ardal;
- yr economi yn ystod y nos;
- cartrefi plant a chyfleusterau gofal;
- nifer yr ymwelwyr i'r ardal e.e. ardaloedd preswyl neu fasnachol;
- banciau a pheiriannau ATM gerllaw;
- problemau gwrthgymdeithasol hysbys;
- cyfleusterau tai;
- canolfannau gwaith;
- gwasanaethau hostel a chymorth ar gyfer y digartref;
- cyfleusterau cymorth alcohol a chyffuriau;
- broceriaid gwystlo a busnesau benthyciadau diwrnod cyflog;
- safleoedd hapchwarae eraill;
- os oes clwstwr presennol o gyfleusterau hapchwarae;
- cyfleusterau iechyd meddwl;
- adeiladau cymunedol;
- sefydliadau gofal preswyl;
- trafnidiaeth a chyfleusterau parcio e.e. arosfannau bws, rhengoedd tacsi, gorsafoedd trên;
- presenoldeb pobl sy'n cysgu allan;
- cyfraddau diweithdra ar gyfer yr ardal;
- mathau a chyfraddau trosedd yn yr ardal a allai effeithio ar y safle;
- ardaloedd gyda niferoedd sylweddol o blant, e.e. parciau a meysydd chwarae.

Nid yw'r rhestr hon yn faith ac mae'n rhaid ystyried ffactorau eraill a nodwyd nad ydynt yn y rhestr hon.

**Newidiadau sylweddol i'r safle**

O bryd i'w gilydd bydd gweithredwyr yn adnewyddu cynllun ac addurn y safle, sy'n annhebygol o ysgogi adolygiad o'r asesiad risg ar gyfer yr adeilad hwnnw. Fodd bynnag, lle mae newid sylweddol yn y safle a allai effeithio ar liniaru risgiau lleol, yna mae'n rhaid i weithredwr adolygu ei asesiad risg ac, os oes angen, ei ddiweddaru, gan ystyried y newid a sut y gallai effeithio ar un neu fwy o'r amcanion trwyddedu.
Disgwylir y bydd gweithredwyr hapchwarae yn ymgymryd â'r broses asesu risg hon fel mater o drefn ar gyfer unrhyw ailosod safle, newidiadau i gynllun neu fesurau rheolaeth fewnol. Os oes angen adolygiad o'r asesiadau risg ar gyfer y safle hwnnw ynghylch unrhyw newidiadau, dylai gweithredwyr hapchwarae sicrhau bod ganddynt system ar waith i gofnodi a gweithredu unrhyw fesurau a nodwyd yn yr adolygiad hwnnw.

Bydd y gweithredwr hapchwarae yn gyfrifol am nodi pryd mae newid sylweddol wedi digwydd i'r safle. Er mwyn cynorthwyo gweithredwyr hapchwarae mae'r Cyngor wedi darparu'r rhestr ganlynol o enghreifftiau o'r hyn y gellid ei ddosbarthu fel newid sylweddol i'r safle (gall rhai ohonynt hefyd ofyn am amrywiad i'r drwydded safle bresennol).

- Unrhyw waith adeiladu neu ailosod safle lle adleolir cyfleusterau hapchwarae o fewn y safle;
- Trosglwyddir y drwydded safle i weithredwr newydd a fydd yn gweithredu'r safle gyda'i weithdrefn a'i bolisïau ei hun sy'n wahanol i'r rheini a weithredwyd gan y trwyddedai blaenorol;
- Unrhyw newid i bolisïau mewnol y gweithredwr sydd, o ganlyniad, yn gofyn am fesurau rheoli presennol ychwanegol neu newidiadau; a/neu bydd staff angen ailhyfforddi ar y newidiadau hyn mewn polisi;
- Mae'r fynedfa neu'r mynedfeydd i'r safle yn cael eu newid, er enghraifft, mae'r deunyddiau drws yn cael eu newid o fetel gyda gwydro i ddrws gwydr llawn neu mae'r drysau'n cael eu hailddyrannu o fynedfa i allanfa ac i'r gwrthwyneb;
- Mae cyfleusterau hapchwarae newydd ar gael yn y safle na chawsant eu darparu o'r blaen, er enghraifft, betio mewn chwarae, dyfeisiau hapchwarae llaw i gwsmeriaid, Terfynellau Betio Hunan Wasanaeth, neu fe gaiff categori gwahanol o beiriant hapchwarae ei ddarparu;
- Mae gweithredwr y safle yn gwneud cais am drwydded ar y safle hwnnw i ddarparu gweithgaredd dan drefn reoleiddio wahanol, er enghraifft, i ganiatáu gwerthu alcohol.

Yn yr un modd â'r enghreifftiau o newidiadau sylweddol mewn amgylchiadau lleol, nid yw'r rhestr uchod yn rhestr gynhwysfawr o newidiadau sylweddol i safle.

Ni fydd y Cyngor, yn gyffredinol, yn gofyn am gopi o'r asesiad risg adolygedig os oes newid sylweddol i'r adeilad trwyddedig wedi digwydd, oni bai bod y newid yn un a fydd yn gofyn am gais amrywio.

**Trwydded amrywio'r safle**

Dim ond y rhai y mae'n ofynnol eu gwneud o dan adran 187 o'r Ddeddf yw'r

amrywiadau i drwyddedau safle ac ni fyddant yn cynnwys newid amgylchiadau megis newid enw safle neu newid cyfeiriad trwyddedai, ac ati. Mae darpariaeth cod cyfrifoldeb cymdeithasol ATChY y Comisiwn 10.1.1 yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr hapchwarae gynnal adolygiad o'r asesiad risg lleol a'i ddiweddaru os oes angen wrth baratoi cais i amrywio'r drwydded safle. Gall gweithredwyr sy'n cyflwyno cais amrywio i'r Cyngor ystyried cyflwyno copi o'r asesiad risg lleol adolygedig wrth gyflwyno'r cais. Bydd hyn wedyn yn negyddu'r angen i'r Cyngor ofyn am weld copi o'r asesiad risg hwn a gallai o bosibl leihau'r tebygolrwydd y bydd sylw yn cael ei wneud i'r cais. Os yw gweithredwr yn dymuno amrywio trwydded safle casino wedi'i haddasu o un safle i'r llall, dylai'r gweithredwr hapchwarae ystyried cynhyrchu asesiad risg newydd ar gyfer y safle hwnnw. Fe'ch cynghorir i gyflwyno copi o'r asesiad hwnnw i'r Cyngor gyda'r ffurflen gais.
.

### Adolygiad rheolaidd o’r asesiad

Fel mater o arfer gorau, mae'r Cyngor yn argymell bod gweithredwyr yn sefydlu trefn adolygu reolaidd mewn perthynas â'u hasesiadau risg lleol. Gellir cynnal y rhaglen adolygu hon ochr yn ochr ag adolygiadau eraill ar asesiadau risg Iechyd a Diogelwch ar gyfer y safle. Byddai'r rhaglen adolygu hon yn sicrhau, ni waeth a yw unrhyw un o'r digwyddiadau sbarduno a nodwyd uchod wedi digwydd ai peidio, bod yr asesiadau risg hyn yn cael eu hystyried yn rheolaidd a'u diweddaru os oes angen.

Y gweithredwr hapchwarae fydd yn penderfynu amlder yr adolygiadau hyn ond argymhellir na ddylai mwy na thair blynedd fynd heibio cyn i'r asesiadau hyn gael eu hadolygu. Efallai y bydd gweithredwyr am gydamseru eu hadolygiadau o'r asesiadau risg lleol â chyhoeddi Datganiad o Egwyddorion Trwyddedu’r Cyngor ar gyfer Hapchwarae. Byddai hyn yn galluogi gweithredwyr hapchwarae i ystyried y Proffil Ardal Leol, sydd wedi'i gyhoeddi yn Natganiad Egwyddorion Trwyddedu’r Cyngor ar gyfer Hapchwarae

### Risgiau lleol a mesurau rheoli

Mae dwy ran benodol i’r broses asesu risg:

- yr asesiad o’r risgiau lleol
- penderfynu ar liniaru priodol i leihau’r risgiau hynny

Mae'r risgiau y mae'n rhaid i weithredwyr eu nodi yn ymwneud â'r effaith bosibl y gallai safle hapchwarae a'i weithrediad ei chael ar yr amcanion trwyddedu. Dylai'r gweithredwyr hapchwarae nodi a rhestru'r holl risgiau lleol yn yr asesiad y maent wedi'u nodi. Gall lefel risgiau o'r fath amrywio o fod yn isel i uchel iawn yn dibynnu ar yr effaith bosibl y mae'r gweithredwyr hapchwarae wedi'i hasesu i'w chael ar yr amcanion trwyddedu. Bydd lefel unrhyw risg benodol yn cael effaith uniongyrchol ar fath a maint y mesurau rheoli y mae'r gweithredwyr hapchwarae yn eu hystyried yn angenrheidiol i liniaru risg o'r fath.

Bydd gweithredwyr eisoes yn asesu lleoliadau wrth chwilio am wefannau newydd neu wrth adolygu perfformiad eu safleoedd. Asesir dyluniad safleoedd hefyd i sicrhau y byddant yn diwallu anghenion y gweithrediad hapchwarae, yn darparu amddiffyniad i staff a chwsmeriaid; a bydd ganddynt gyfleusterau ar gyfer cofnodi troseddau. Bydd gweithredwyr hefyd wedi gweithredu polisïau a gweithdrefnau ar gyfer gweithredu safle yn unol â gofynion rheoliadol a gofynion rheoliadol eraill a osodir arnynt gan y Comisiwn ac asiantaethau eraill.

Bydd gweithredwyr eisoes yn gyfarwydd â nodi risgiau mewn perthynas â deddfwriaeth iechyd a diogelwch a hylendid bwyd. Defnyddir asesiadau risg hefyd at ddibenion diogelwch a throseddu, er enghraifft ar gyfer gwyngalchu arian ac fel rhan o arfer gorau cymdeithasau masnach, megis y Gynghrair Safe Bet.

Mae'r broses asesu risg leol hon, er ei bod yn debyg, yn gofyn am ystod lawer ehangach o ystyriaethau wrth nodi risg leol. Gofyniad darpariaeth cod cyfrifoldeb cymdeithasol ATChY y Comisiwn 10.1.1 yw bod gweithredwyr hapchwarae yn ystyried yr ardal leol y mae'r safle wedi'i lleoli ynddi a'r effaith y gallai gweithrediad y safle ei chael ar yr amcanion trwyddedu.

**Risgiau lleol ardal**

Mae nifer o ffactorau'n ymwneud â'r ardal leol y gall gweithredwyr eu hystyried sy'n annibynnol ar bwy mae'r gweithredwyr yn credu yw eu marchnad darged. Cyfrifoldeb y gweithredwr hapchwarae fydd nodi'r risgiau hyn. Fodd bynnag, efallai y bydd achlysuron y bydd y Comisiwn neu'r Cyngor yn darparu gwybodaeth am yr hyn y maent yn ei ystyried yn risg leol. Gellir nodi hyn yn y Datganiad o Bolisi Trwyddedu neu mewn dogfen ganllaw ar wahân, y mae'r ddwy ddogfen i'w gweld ar wefan y Cyngor.

Bydd yr ardal leol yn wahanol yn dibynnu ar y safle a maint ei weithrediad. Er enghraifft, efallai bod gan neuadd Bingo fawr ddalgylch ehangach na siop fetio cymdogaeth gan fod neuadd Bingo yn denu cwsmeriaid o ymhellach i ffwrdd.

**Asesiad Risg**

Er bod hapchwarae yn weithgaredd adloniant cyfreithiol gall, mewn rhai lleoliadau, gael effaith negyddol ar unigolion a'r gymuned ehangach. Mae'r ystyriaeth o agosrwydd adeiladau hapchwarae i leoliadau lle gallai grwpiau sy'n agored i hapchwarae problematig ymgynnull, e.e. bydd ysgolion, gwasanaethau alcohol, tai â chymorth, yn flaenoriaeth i'r ymgeisydd a'r awdurdod trwyddedu. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy wedi cynhyrchu Asesiad Llesiant fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Asesiad yn ystyried Lles Economaidd, Cymdeithasol, Amgylcheddol a Diwylliannol yn y sir gyfan tra mae hefyd yn canolbwyntio ar 5 maes yn seiliedig ar: Y Fenni, Trefynwy, Cas-gwent, Cil-y-coed a Chanol Sir Fynwy.

Gellir dod o hyd i fanylion llawn ar http://www.monmouthshire.gov.uk/our-monmouthshire
Gellir dod o hyd i ddata troseddau ar gyfer yr ardal leol ar www.gwent.police.uk <http://www.gwent.police.uk>
Mae Prifysgol Bangor wedi cynnal map rhyngweithiol sy'n ymchwilio bregusrwydd ardal i niwed sy'n gysylltiedig á hapchwarae ledled Cymru. https://www.bangor.ac.uk/psychology/research/gambling/gambling-and-health-in-wales

**Risgiau gweithredol hapchwarae**

Mae'r gweithrediad hapchwarae yn ymwneud â sut mae'r safle yn cael ei redeg neu sut y bydd yn cael ei redeg. Bydd hyn yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau'r gweithredwr sydd wedi'u rhoi ar waith i fodloni gofynion y busnes, y Ddeddf a / neu ddarpariaethau cod penodol yn yr ATChY.

Dylai gweithredwyr hapchwarae nodi risgiau gweithredol yn yr ardal leol i'r amcanion trwyddedu ac yna ystyried a oes mesurau rheoli sy'n fwy na'r rhai sydd eisoes ar waith a fyddai'n lliniaru'r risg. Er enghraifft, os yw'n gwybod bod defnydd anghyfreithlon o gyffuriau yn yr ardal leol, gall y gweithredwr hapchwarae ystyried defnyddio mesurau rheoli fel cloeon ar ddrysau'r toiled neu newid dyluniad y toiled i atal pobl rhag ei ddefnyddio at ddefnydd cyffuriau anghyfreithlon.
Mae'n debygol y bydd nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r elfen hon o'r asesiad yn debyg iawn ar gyfer pob adeilad ag amrywiadau bach yn dibynnu ar unrhyw ffactorau penodol sy'n ymwneud â'r adeilad neu'r ardal leol.

Bydd y mesurau rheoli y bydd gweithredwyr yn eu rhoi ar waith i liniaru unrhyw risg sy'n gysylltiedig â'r gweithrediad gamblo yn dibynnu ar y math o weithgareddau gamblo a ddarperir, sut mae'r cwmni'n gweithredu a maint y sefydliad.

**Risgiau dylunio safle**

Mae dyluniad y safle yn ffactor hynod bwysig wrth ystyried risgiau lleol. Er enghraifft, gall Canolfan Hapchwarae i Oedolion sydd wedi'i lleoli mewn ardal sydd â nifer uchel o blant a phobl ifanc yn bresennol trwy gydol y dydd nodi bod y drysau ar bob ochr i'r adeilad yn cael eu defnyddio gan blant lleol fel llwybr tarw i gael mynediad i'r stryd gyfagos. Efallai mai'r lliniaru priodol yn yr achos hwn yw bod y gweithredwr hapchwarae yn cau un o'r drysau i'w atal rhag cael ei ddefnyddio fel llwybr tarw.

Fel rhan o'r broses ddylunio, mae cynllun y safle yn ystyriaeth fawr oherwydd gall dyluniad sydd wedi'i gynhyrchu'n wael greu risgiau sylweddol i un neu fwy o'r amcanion trwyddedu. Mae gweithredwyr hapchwarae yn brofiadol mewn dylunio safleoedd ac yn aml mae'r ystyriaethau hyn yn cael eu gwneud yn ystod y cam cynllunio. Fe'ch cynghorir bod gweithredwyr hapchwarae yn sicrhau bod proses ar waith i gofnodi'r penderfyniadau allweddol hyn yn gynnar yn y broses gynllunio ar gyfer dyluniad y safle fel y gellir cynnwys hyn yn eu hasesiad risg.

### Risgiau dylunio mewnol

Bydd dyluniad a chynllun mewnol yn adlewyrchu gweithrediad y safle a'r mathau o gyfleusterau hapchwarae y mae'n eu cynnig. Ar gyfer rhai safleoedd bydd y dyluniad yn ddarostyngedig i rai cyfyngiadau oherwydd amodau gorfodol ar y drwydded safle hapchwarae, megis y pellter rhwng byrddau hapchwarae a chyfleusterau hapchwarae eraill mewn casinos, a chyfyngiadau ar leoliad peiriannau ATM.

Dylai gweithredwyr asesu'r risg a gyflwynir gan gynllun mewnol y safle a lleoliad y cyfleusterau hapchwarae ynddynt. Er enghraifft, os rhoddir peiriant hapchwarae o fewn llinell uniongyrchol cownter yr ariannwr yna bydd staff yn gallu monitro ymddygiad chwaraewyr a chynnal ymyriadau os oes pryder ynghylch arferion gwariant y cwsmeriaid. Gall staff hefyd fonitro'r defnydd o'r peiriannau a gallant herio unrhyw gwsmeriaid y credir eu bod o dan 18 oed, neu sy'n niweidio'r peiriannau, neu sy'n ymddangos fel pe baent yn ceisio gwyngalchu arian. Trwy asesiad syml o'r lleoliad gorau ar gyfer y peiriannau hyn, gall gweithredwyr leihau'r risg i'r amcanion trwyddedu yn sylweddol.

### Risgiau dylunio allanol

Bydd tu allan y safle yn hysbyseb fawr i'r gweithredwr hapchwarae. Fodd bynnag, dylid asesu'r dyluniad ar sail y risg gysylltiedig. Gall gweithredwyr nodi risg sy'n gysylltiedig â'r dyluniad a chyflwyno mesurau rheoli yn seiliedig ar y risg ganfyddedig honno. Er enghraifft, os oes gan yr adeilad lawer o ffryntiad gwydr mewn ardal sy'n dueddol o gael difrod troseddol, gall gweithredwyr ystyried bod y risg o ddifrod i'r gwydr gwydn safonol yn uchel a chyflwyno mesur rheoli fel caeadau rholer a / neu gamerâu teledu cylch cyfyng allanol.

### Mesurau rheoli

Yn dibynnu ar natur y ffactorau risg, gall y mesurau rheoli a nodwyd i liniaru'r risg ganfyddedig fod yn gyfuniad o systemau, dyluniad a mesur ffisegol. Gall mesurau rheoli sy'n ymwneud â systemau fod yn fesurau sydd wedi'u rhoi ar waith trwy bolisïau a gweithdrefnau. Gall y rhain naill ai fod yn systemau sy'n berthnasol i holl safleoedd neu systemau'r gweithredwr sydd wedi'u datblygu'n benodol i safleoedd penodol ddelio â ffactor risg lleol penodol. Gall mesurau rheoli system gynnwys hyfforddiant staff, polisïau a gweithdrefnau diogelwch. Gallant hefyd ymwneud â chael personél diogelwch ar fynedfeydd, gweithredu meini prawf aelodaeth a / neu ddarparu cefnogaeth i grwpiau bregus lleol trwy ddulliau ariannol neu ddulliau eraill.

Mae mesurau rheoli dyluniad yn fesurau sy'n rhan o ddyluniad y safle. Gall y rhain gynnwys lleoliad cyfleusterau hapchwarae a dyluniad a lleoliad cownteri ariannwr yn y safle, a dyluniad allanol y safle. Er enghraifft, gallai mesur rheoli ar gyfer y tu mewn i'r safle gynnwys symud cownter ariannwr o gefn yr adeilad i flaen y safle wrth ymyl y brif fynedfa. Gall mesur rheoli dyluniad allanol olygu

bod y dyluniad allanol wedi'i deilwra i fynd i'r afael â risgiau lleol, er enghraifft, arddangosfeydd ffenestri mwy agored i alluogi staff i weld allan o'r safle neu ddyluniad er mwyn osgoi denu plant i'r safle.

Mae'r mesurau rheoli terfynol yn ymwneud â mesur ffisegol penodol a fydd yn mynd i'r afael â'r ffactor risg a nodwyd. Gall y mesurau rheoli ffisegol hyn, er enghraifft, gynnwys larymau, camerâu teledu cylch cyfyng, drysau, cloeon magnetig, cloeon amser ar goffrau, citiau tafod, caeadau ffenestri, systemau creu anwedd, goleuadau UV mewn toiledau.

Gall y mesurau rheoli a nodwyd i liniaru risg ganfyddedig gynnwys cyfuniad o systemau, dyluniad a mesurau ffisegol. Er enghraifft, er mwyn mynd i'r afael â'r ffactorau risg sy'n ymwneud â phlant yn cael mynediad i adeilad hapchwarae cyfyngedig dros 18 oed, gall y gweithredwr nodi'r mesurau rheoli canlynol:

**Systemau:** Polisïau gwirio cardiau PASS neu oedran, cynllun her 21, hyfforddi staff a staff drws.
**Dyluniad:** Dyluniad allanol na fydd yn denu plant i'r adeilad, bydd cynllun y fynedfa yn galluogi staff a diogelwch i wylio'r rhai sy'n dod i mewn i'r adeilad a'u herio ar sail oedran.
**Ffisegol:** Cloeon drws magnetig a sganiau Adnabod.

### Cam 1: Ymgymryd ag asesiad risg lleol

Dylai'r asesiad risg gael ei gynnal trwy ddull cam wrth gam. Yn gyntaf, gall gweithredwyr hapchwarae asesu'r ardal leol a nodi'r ffactorau risg perthnasol, yna asesu'r gweithrediad hapchwarae, ac yn olaf asesu dyluniad y safle, yn fewnol ac yn allanol. Ar ôl nodi'r ffactorau risg, dylid ystyried y mesurau rheoli i liniaru'r risgiau. Bydd y mesurau rheoli hyn naill ai eisoes ar waith neu bydd angen eu gweithredu.

Dylai'r asesiad risg gael ei gynnal trwy ddull cam wrth gam. Dylai aseswyr ddechrau trwy nodi'r ffactorau risg lleol sy'n amgylchynu'r safle. Bydd y ffactorau risg yn wahanol o leoliad i leoliad felly mae'n bwysig deall nodweddion penodol yr ardal leol a'r bobl sy'n byw, gweithio neu'n ymweld â'r ardal honno. Defnyddiwch broffil llesiant Cymunedol a bydd gwybodaeth leol yn cynorthwyo.

### Cam 2: Gweithrediad hapchwarae a dyluniad ffisegol

Wrth asesu'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â gweithrediad hapchwarae dylai'r asesydd ystyried y risgiau lleol a dderbynnir yn gyffredin gan randdeiliaid ehangach a sut y gall y gweithrediad hapchwarae hwnnw effeithio ar y risg honno. Mae dyluniad ffisegol yr adeilad yn ystyriaeth allweddol oherwydd gallai hyn gael effaith sylweddol ar y risg i'r amcanion trwyddedu. Wrth asesu'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â dyluniad a chynllun y safle, mae angen cyfeirio at ffactorau risg yr ardal leol a nodwyd eisoes i sicrhau nad yw'r

dyluniad yn ychwanegu at y risg honno. Dylid ystyried y dyluniad, yn fewnol ac yn allanol, a ffactorau risg penodol a nodwyd yn cael eu cofnodi.

**Cam 3: Mesurau rheoli**

Unwaith bydd y ffactorau risg wedi cael eu nodi, dylai'r asesydd geisio nodi mesurau rheoli a fyddai'n lliniaru'r risgiau a nodwyd. Bydd mesurau rheoli o'r fath yn ymwneud ag un o'r tri chategori o fesurau rheoli a grybwyllir uchod (systemau, dyluniad a ffisegol). Efallai y bydd angen cyfuniad o fesurau rheoli ar rai ffactorau risg i liniaru'r risg yn ddigonol.

**Cam 4: Cynllun Gweithredu**

Unwaith bydd yr asesiad wedi cael ei gynnal dylid cwblhau cynllun gweithredu fel bod unrhyw gamau a nodwyd yn cael eu dogfennu a bod dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r darn gwaith gofynnol yn cael ei bennu a'i gytuno.

**Asesiad wedi'i gwblhau**

Mae'n rhaid gweithredu'r mesurau rheoli yn y safle ac, os yw'n berthnasol, dylid hyfforddi staff yn y safle neu eu hyfforddi ar y polisi neu'r weithdrefn newydd. Mae'n rhaid cadw'r asesiad a dylid ei adolygu pryd bynnag y bydd sbardun yn digwydd neu fel rhan o drefn adolygu reolaidd.

## 7. Gwybodaeth bellach

Gellir cael mwy o wybodaeth am Ddeddf Hapchwarae 2005, y Datganiad hwn o Bolisi Trwyddedu neu'r broses ymgeisio gan:

Adran Trwyddedu
Cyngor Sir Fynwy
Canolfan Addysg Gymunedol Y Fenni
Hen Heol Henffordd
Y Fenni
NP7 6EL
Ffôn:  01873 735420
Ffacs:  01633 644878
E-bost: licensing@monmouthshire.gov.uk
Gwefan: www.monmouthshire.gov.uk/licensing

Mae gwybodaeth hefyd ar gael gan:

Y Comisiwn Hapchwarae
Tŷ Sgwâr Fictoria
Birmingham
B2 4BP
Ffôn:  0121 230 6666
Ffacs: 0121 230 6720
E-bost: info@gamblingcommission.gov.uk

Gwefan: www.gamblingcommission.gov.uk

Adran ar gyfer Diwylliant Digdol, Cyfryngau a Chwaraeon
Stryd 100 Parliament
Llundain
SW1A 2BQ
Ffôn: 020 7211 2210
Gwefan: www.culture.gov.uk

# Atodiad A   Mynediad i Safle

## Casinos

- Rhaid i unrhyw gwsmer beidio â gallu mynd i mewn i casino yn uniongyrchol o unrhyw safle arall, sydd â thrwydded adeilad gamblo. Canolfan Hapchwarae i Oedolion • Rhaid i unrhyw gwsmer beidio â gallu cyrchu'r safle yn uniongyrchol o unrhyw safle gamblo trwyddedig arall. Siopau Betio • Rhaid i fynediad fod o stryd neu o adeilad arall gyda thrwydded safle betio; • Dim mynediad uniongyrchol o siop betio i adeilad arall a ddefnyddir i werthu manwerthu nwyddau neu wasanaethau. I bob pwrpas ni all fod mynediad i siop fetio o siop o unrhyw fath ac ni allech gael siop fetio yng nghefn caffi - byddai'n rhaid trwyddedu'r ardal gyfan. Traciau Ni ddylai unrhyw gwsmer allu mynd i'r adeilad yn uniongyrchol o: • casino; • canolfan hapchwarae i oedolion. Adeiladau Bingo Ni chaiff unrhyw gwsmer allu mynd i'r adeilad yn uniongyrchol o: • casino; • canolfan hapchwarae i oedolion; • adeilad betio, heblaw trac. Canolfan Adloniant Teulu Ni chaiff unrhyw gwsmer allu mynd i'r adeilad yn uniongyrchol o: • casino; • canolfan hapchwarae i oedolion; • adeilad betio, heblaw trac.
- Mae’n rhaid i’r brif fynedfa i’r safle fod o’r stryd;
- Mae’n rhaid i brif fynedfa i gasino beidio â bod o safle a ddefnyddir yn bennaf neu’n gyfan gwbl gan blant a/neu bobl ifanc;
- Mae’n rhaid i bob cwsmer beidio â gallu mynd i mewn i gasino yn uniongyrchol o unrhyw safle arall, sy’n dal trwydded safle hapchwarae.

## Canolfan Adloniant i Oedolion

- Mae’n rhaid i bob cwsmer beidio â gallu mynd i mewn i’r safle o unrhyw safle hapchwarae trwyddedig arall.

## Siopau Betio

- Mae’n rhaid i fynediad fod o’r stryd neu o safle arall â thrwydded safle hapchwarae;
- Dim mynediad uniongyrchol o siop fetio i safle arall a ddefnyddir ar gyfer gwerthiant manwerthu nwyddau neu wasanaethau. Mewn gair ni all fod mynedfa i siop fetio o siop o unrhyw fath ac ni allech gael siop fetio yng nghefn caffi - byddai’n rhaid i’r ardal gyfan gael ei thrwyddedu.

## Traciau

Ni ddylai unrhyw gwsmer allu cael mynediad i’r safle yn uniongyrchol o:

- gasino;
- ganolfan hapchwarae i oedolion.

## Safle Bingo

Ni ddylai unrhyw gwsmer allu cael mynediad i’r safle yn uniongyrchol o:

- gasino;
- ganolfan hapchwarae i oedolion;
- safle betio, ac eithrio trac.

**Canolfan Adloniant Teulu**

Ni ddylai unrhyw gwsmer allu cael mynediad i'r safle yn uniongyrchol o:

- gasino;
- ganolfan hapchwarae i oedolion;
- safle betio, ac eithrio trac.
-

Mae Rhan 7 o Ganllawiau'r Comisiwn Hapchwarae i'r Awdurdodau Trwyddedu yn cynnwys canllawiau pellach ar y mater hwn, y bydd yr awdurdod hwn hefyd yn ei ystyried yn ei broses o wneud penderfyniadau.

**Atodiad** B   Amserlen Dirprwyo Swyddogaethau a Phenderfyniadau Trwyddedu

| Materion i'w trafod | Cyngor Llawn | Is-bwyllgor | Swyddogion |
|---|---|---|---|
| Polisi Hapchwarae tair blynedd | x | | |
| Polisi i beidio â chaniatáu casinos | x | | |
| Gosod Ffioedd – pan mae'n briodol (gosod Ffioedd ar gyfer Trwyddedau Safle i'w ddirprwyo i'r Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio) | | x | |
| Cais am Drwydded Safle | | Lle mae sylwadau wedi'u derbyn a heb eu tynnu'n ôl | Lle nad oes unrhyw sylwadau wedi'u derbyn / sylwadau wedi'u tynnu'n ôl / eu hawdurdodi i hepgor gwrandawiad os yw'r holl bartïon yn cytuno / awdurdodwyd i asesu a yw sylw yn ddilys. |
| Cais am amrywiad i drwydded | | Lle mae sylwadau wedi'u derbyn a heb eu tynnu'n ôl | Lle nad oes unrhyw sylwadau wedi'u derbyn / sylwadau wedi'u tynnu'n ôl / eu hawdurdodi i hepgor gwrandawiad os yw'r holl bartïon yn cytuno / awdurdodwyd i asesu a yw sylw yn ddilys. |
| Cais am drosglwyddo trwydded | | Lle mae sylwadau wedi'u derbyn oddi wrth y Comisiwn | Lle na dderbyniwyd unrhyw sylwadau gan y Comisiwn |
| Cais am ddatganiad dros dro | | Lle mae sylwadau wedi'u derbyn a heb eu tynnu'n ôl | Lle nad oes unrhyw sylwadau wedi'u derbyn / sylwadau wedi'u tynnu'n ôl / eu hawdurdodi i hepgor |

| Materion i'w trafod | Cyngor Llawn | Is-bwyllgor | Swyddogion |
|---|---|---|---|
| | | | gwrandawiad os yw'r holl bartïon yn cytuno / awdurdodwyd i asesu a yw sylw yn ddilys. |
| Adolygu Trwydded Safle | | x | |
| Dirymu trwydded safle am fethu â thalu ffi drwydded flynyddol | | | x |
| Cais am hawlenni hapchwarae mewn clybiau/peiriannau hapchwarae mewn clybiau | | Lle mae sylwadau wedi'u gwneud (a heb eu tynnu nôl) | Lle nad oes unrhyw sylwadau wedi'u derbyn / sylwadau wedi'u tynnu'n ôl / eu hawdurdodi i hepgor gwrandawiad os yw'r holl bartïon yn cytuno / awdurdodwyd i asesu a yw sylw yn ddilys. |
| Canslo hawlenni hapchwarae mewn clybiau/peiriannau hapchwarae mewn clybiau | | x | |
| Cais am bob hawlen arall | | Lle mae sylwadau wedi'u derbyn a heb eu tynnu nôl | Lle nad oes unrhyw sylwadau wedi'u derbyn / sylwadau wedi'u tynnu'n ôl / eu hawdurdodi i hepgor gwrandawiad os yw'r holl bartïon yn cytuno / awdurdodwyd i asesu a yw sylw yn ddilys. . |
| Canslo hawlenni peiriannau hapchwarae mewn safleoedd trwyddedig | | x | Awdurdodwyd i ganslo hawlen, gyda'r deiliad yn cael |

| Materion i’w trafod | Cyngor Llawn | Is-bwyllgor | Swyddogion |
|---|---|---|---|
| | | | yr hawl i wrandawiad yn yr Is-bwyllgor. |
| Ystyried hysbysiad defnydd dros dro | | | Ystyriaeth / awdurdodwyd i hepgor gwrandawiad os yw pawb yn cytuno / awdurdodwyd i asesu a yw'r gwrthwynebiad yn ddilys. |
| Penderfyniad i roi gwrth-hysbysiad i hysbysiad dros dro | | x | |
| Loterïau Cymdeithasau Bychain | | x | Cofrestru, Gwrthod a dirymu cofrestriad loteri gyda'r ymgeisydd / deiliad yn cael yr hawl i wrandawiad yn yr Is-bwyllgor. |

## Atodiad C Diffiniadau

**NODER:** Yn y Polisi hwn, cynhwysir y diffiniadau canlynol i roi esboniad i rai termau a gynhwysir yn y Ddeddf ac, felly, yn y Datganiad o Bolisi Trwyddedu. Mewn rhai achosion maent yn dalfyriad o'r hyn a nodir yn Neddf Hapchwarae 2005 neu'n ddehongliad o'r termau hynny. I gael diffiniad llawn o'r termau a ddefnyddir, mae’n rhaid i'r darllenydd gyfeirio at Ddeddf Hapchwarae 2005.

Ystyr ‘Y Cyngor’ yw Cyngor Sir Fynwy, gan weithredu fel yr Awdurdod Trwyddedu fel y’i diffinnir gan Ddeddf Hapchwarae 2005.

Ystyr ‘y Ddeddf’ yw Deddf Hapchwarae 2005.

Ystyr ‘Y Sir’ yw Sir Fynwy.

‘Yr Awdurdod Trwyddedu’ yr awdurdod y mae'r safle wedi'i leoli'n gyfan gwbl / yn rhannol yn ei ardal. Mae'r Awdurdod Trwyddedu (fel yn yr awdurdod dyroddi) hefyd yn awdurdod â chyfrifoldeb.

‘Y Comisiwn Hapchwarae’ corff a sefydlwyd gan y Llywodraeth fel y rheolydd unedig ar gyfer hapchwarae, gan ddisodli’r Bwrdd Hapchwarae.

Ystyr ‘Awdurdod â Chyfrifoldeb’ yw corff cyhoeddus y mae’n rhaid ei hysbysu o rai ceisiadau am hawlenni a thrwyddedau safle, ac sydd â hawl i wneud sylwadau ar unrhyw un o’r amcanion trwyddedu.

Ystyr ‘plant’ yw unigolion sy’n llai nag 16 oed.

Ystyr ‘person ifanc’ yw unigolyn sydd o dan 18 oed ac yn 16 oed a hŷn.

Ni fydd 'person agored i niwed' yn cael ei ddiffinio ond y rhagdybiaeth yw bod y grŵp hwn yn cynnwys pobl sy'n hapchwarae mwy nag y maen nhw eisiau, pobl sy'n hapchwarae y tu hwnt i'w modd, a phobl nad ydyn nhw o bosib yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus neu gytbwys am hapchwarae oherwydd nam meddyliol, alcohol neu gyffuriau.

Ystyr ‘Amodau Gorfodol’ yw amodau penodedig a ddarperir gan reoliadau i fod ynghlwm wrth drwyddedau safle.

Ystyr ‘Amodau Rhagosodedig’ yw amodau penodedig y darperir ar eu cyfer gan reoliadau i fod ynghlwm wrth drwydded oni bai eu bod wedi'u heithrio gan y Cyngor.

Ystyr ‘safle’ yw unrhyw le, gan gynnwys llong neu strwythur symudol.

Ystyr ‘traciau’ yw cwrs rasio ceffylau, trac cŵn neu safle arall y mae ras neu ddigwyddiad chwaraeon arall yn digwydd ynddo neu y bwriedir iddo ddigwydd ynddo.

# Atodiad Ch  Crynodeb o Ddarpariaethau Peiriannau gan Safleoedd

| Categori Peiriannau | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Math o Safle** | **A** | **B1** | **B2** | **B3** | **B4** | **C** | **D** |
| **Casino mawr**<br>(cymhareb peiriant / bwrdd o 5-1 hyd at yr uchafswm) | | | | Uchafswm o 150 o beiriannau<br>Unrhyw gyfuniad o beiriannau yng nghategorïau B i Ch (ac eithrio peiriannau B3A), o fewn y terfyn cyfan o 150 (yn amodol ar gymhareb peiriant / bwrdd) | | | |
| **Casino bychan**<br>(cymhareb peiriant / bwrdd o 2-1 hyd at yr uchafswm) | | | | Mwyafswm o 80 o beiriannau<br>Unrhyw gyfuniad o beiriannau yng nghategorïau B i Ch (ac eithrio peiriannau B3A), o fewn y terfyn cyfan o 80 (yn amodol ar gymhareb peiriant / bwrdd) | | | |
| **Casino Cyn Deddf 2005**<br>(dim cymhareb peiriant/bwrdd) | | | | Uchafswm o 20 peiriant categorïau B i Ch (ac eithrio peiriannau B3A), neu unrhyw nifer o beiriannau C neu Ch yn lle | | | |
| **Safleoedd betio a thraciau lle mae betio cronnol** | | | | Mwyafswm o 4 peiriant categorïau B2 i Ch (ac eithrio peiriannau B3A) | | | |
| **Safleoedd Bingo**[1] | | Uchafswm o 20% o gyfanswm nifer y peiriannau hapchwarae sydd ar gael i'w defnyddio yng nghategorïau adeiladau B3 neu B4 | | | | Dim terfyn ar beiriannau categori C neu Ch | |
| **Canolfan Hapchwarae i Oedolion**[2] | | Uchafswm o 20% o gyfanswm y peiriannau hapchwarae sydd ar gael i'w defnyddio yng nghategorïau adeiladau B3 neu B4 | | | | Dim terfyn ar beiriannau categori C neu Ch | |
| **Canolfan adloniant teulu trwyddedig**[3] | | | | Dim cyfyngiad ar beiriannau Categori C neu Ch | | | |
| **Canolfan adloniant teulu** (gyda hawlen) [3] | | | | Dim cyfyngiad ar beiriannau Categori Ch | | | |
| **Clybiau neu gymdeithasau llesiant glowyr** (gyda hawlenni) [4] | | | | Mwyafswm o 3 pheiriant yng nghategorïau B3A neu B4 i Ch | | | |
| **Safle sy'n gymwys ar gyfer trwydded alcohol** | | | | 1 neu 2 beiriant categori C neu Ch yn awtomatig ar hysbysiad | | | |
| **Safle sy'n gymwys ar gyfer trwydded alcohol**<br>(gyda hawlen peiriant hapchwarae mewn safle trwyddedig ) | | | | Nifer y peiriannau categori C-Ch fel y nodwyd ar yr hawlen | | | |
| **Ffair deithiol** | | Dim cyfyngiad ar beiriannau Categori Ch | | | | | |

[1] Mae gan drwydded safle bingo hawl i sicrhau bod nifer o beiriannau hapchwarae categori B nad ydynt yn fwy na 20% o gyfanswm nifer y peiriannau hapchwarae ar gael yn y safle. Pan roddwyd trwydded safle cyn 13 Gorffennaf 2011, mae ganddynt hawl i sicrhau bod wyth o beiriannau hapchwarae categori B, neu 20% o gyfanswm nifer y peiriannau hapchwarae, p'un bynnag (Deddf Hapchwarae 2005 (Peiriannau Hapchwarae mewn Safleoedd Bingo) Gorchymyn 2009) yw'r mwyaf. Mae peiriannau categori B mewn safleoedd bingo wedi'u cyfyngu i beiriannau is-gategori B3 a B4, ond nid peiriannau B3A.

[2] Mae gan ganolfannau hapchwarae i oedolion yr hawl i sicrhau bod nifer o beiriannau hapchwarae categori B ar gael i'w defnyddio nad ydynt yn fwy na 20% o gyfanswm nifer y peiriannau hapchwarae sydd ar gael i'w defnyddio yn y safle ac unrhyw nifer o beiriannau categori C neu Ch. Pan roddwyd trwydded safle cyn 13 Gorffennaf 2011, mae ganddynt hawl i sicrhau bod pedwar peiriant hapchwarae categori B ar gael, neu 20% o gyfanswm nifer y peiriannau hapchwarae, pa un bynnag yw'r mwyaf. Mae peiriannau categori B mewn canolfannau hapchwarae i oedolion wedi'u cyfyngu i beiriannau is-gategori B3 a B4, ond nid peiriannau B3A.

[3] Dim ond safleoedd a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer sicrhau bod peiriannau hapchwarae ar gael all gael trwydded peiriant hapchwarae Canolfan Adloniant Teulu didrwydded neu drwydded safle CAT. Dim ond mewn Canolfannau Adloniant Teulu trwyddedig y gellir lleoli peiriannau Categori C a lle mae caniatâd FEC mewn grym. Mae'n rhaid iddynt fod mewn ardal ar wahân i sicrhau gwahanu a goruchwylio peiriannau y gall oedolion eu chwarae yn unig. Nid oes pŵer i'r awdurdod trwyddedu osod terfyn ar nifer y peiriannau o dan y drwydded Canolfan Adloniant Teulu.

[4] Mae gan glybiau aelodau a sefydliadau llesiant glowyr sydd â thrwydded hapchwarae clwb neu â thrwydded peiriant clwb, hawl i leoli cyfanswm o dri pheiriant yng nghategorïau B3A i Ch ond dim ond un peiriant B3A y gellir ei leoli fel rhan o'r hawl hon.

[5] Mae clybiau masnachol sydd â pheiriannau clwb neu hawlenni hapchwarae yn gymwys i gyfanswm o dri pheiriant yng nghategorïau masnachol B4 i Ch.